

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 283 - 60c
Mai 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Arlunydd
ym mynwent
Alltyblaca**



Tudalen 19

**Cadwyn
arall o
gyfrinachau**



Tudalen 14

**Croesawu
Eisteddfod
yr Urdd**



Tudalen: 9 a 11

Bwrlwm Bro



Tîm rygbi Llamed dan 14 oed gyda'r hyfforddwyr Aled Roberts, Gary Jones a Chris Doughty, wedi ennill 'Carmarthenshire plate final' yn erbyn Llandeilo. Sgôr terfynol 20-15. Da iawn bois!



Shan Cothi a Iolo Williams yn ffilmio rhaglen 'Bro' yn Llamed ar gefn coets a cheffylau Tri Star Esgairgoch. Mwy ar dudalen 21.



Prif enillydd y Stoc Ifanc yn Sioe Feirch Llamed oedd Richard a Gethin Morgan, Cwmann, Llamed gyda'u ebol blwydd Adran 'C', 'Ormond S.D.'



Aelodau Eglwys Llanycrwys ynghyd a chyfeillion o Eglwysi Pencarreg a Chwmann yn cychwyn o Ffarmers ar eu taith i'r Eglwys ar Ddydd Gwener y Grogllith.

Priodasau



Ar ddiwrnod ola'r flwyddyn 2009 yn Nhy Newton, Parc Dinefwr, priodwyd Nina merch Paul a Carol Unsworth, Glan Yr Afon, Cwrtnewydd a John Rhys mab Glyndwr a Margaret, Y Glyn, Cwmann. Cynhaliwyd y wleded yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo.



A'r haul yn disgleirio ar y 9fed o Ebrill daeth teulu a ffrindiau ynghyd i ddathlu priodas Heulwen Evans, Ceunant Llanllwni a Huw Jones, Fferm Y Rhos Pen y Mynydd Trimsaran. Dymunwn oes o hapusrwydd ac iechyd i'r ddau wrth iddynt ymgartrefu ar Fferm y Rhos.

Eisteddfod Capel y Groes

Daeth dwy o ferched Ysgol Gyfun Llambled i'r brig (dde) - Lowri Elen Jones o Lambled yn gyntaf ar Ganu Emyrn dan 15oed ac yn ail ar Ganu Penillion a Gwawr Hatcher o Gorsgoch yn ennill ar Ganu Penillion dan 15 oed ac yn ail ar Ganu Emyrn. Rhys Davies, Cwmsychbant (isod) yn ennill yr adrodd a'r canu 8-11 oed (cyfyngedig) a chyntaf yn yr adrodd a'r canu 8-10 oed (agored) ynghyd a'r cyntaf ar unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 12oed. (Isod dde) Megan Jones, Blaencwrt yn ail am ganu dan 8 (cyf) a thrydydd am ganu dan 8 (agored) a'i chwaer Nia Beca Jones, oedd yn fuddugol yn y canu a'r adrodd dan 8 oed cyfyngedig ac ail ar yr unawd dan 6 agored a thrydydd ar yr adrodd. Yn y gystadleuaeth 8-10 oed enillodd Elin Davies, Cwmsychbant y cyntaf am ganu ac ail am adrodd a Sara Elan Lones, Cwmann yn cyntaf am adrodd ac ail am ganu.



Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mai Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin 01545 571234
Mehefin: Marian Morgan, Glasfryn, Drefach 480490
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btoopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmstychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfryn, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

O Gardi at Gardi.

Hyfryd oedd derbyn galwad oddi wrth Dai Williams, Dolaugwyrdion (Dai Dolau) yn adrodd yr hanesyn amdano yn cerdded un o'r dolydd ger Afon Teifi ac yn gweld rhywbeth coch dan ei draed. Canfod mae ffôn symudol oedd hi. Tybiodd mae un o'r cerddwyr oedd wedi colli hon. Roedd y plastig wedi cadw yn dda ond roedd y bateri wedi chwyddo ac wedi mynd yn ddiwerth. Wedi cyrraedd adre rhaid oedd ymchwilio i berchnogaeth y ffôn. Roedd enw dynes yn dal i fod o dan 'selotape' ar y tu allan. Wedi tynnu'r garden 'SIM' o berffedion y teclyn a'i roi yn ffôn ei hun, canfod fod rhifau yn ymddangos. Roedd y rhif cartref. o Bont Senni, wedi deialo'r rhif, dynes yn ateb. Dai yn holi iddi oedd hi wedi colli ffôn. "Un goch yw hi", meddai honno. Wedi cadarnhau hyn, dyma hi'n dweud fod y gŵr wedi benthyca ei ffôn hi gan fod ei ffôn e, a dim arian ynddi.

Y cwestiwn nesaf oedd pryd a ble oedd y ffôn wedi'i cholli? "Mewn Ymryson Aredig ger Llambled meddai". Pum mlynedd i fis Mawrth diwethaf y cynhaliwyd yr ymryson ar gaeau Dolaugwyrdion a hon wedi bod yn y tir byth oddi ar hynny. "Gyda llaw" meddai'r ddynes, "fedrwrch chi ddanfôn y ffôn yn ôl i fi, gan fod credid yn dal ar y garden". Wedes i rhywbeth am Gardi!!

Holi Dai ymhellach am drysorau'r afon Teifi. Un diddorol meddai oedd neges mewn potel gan blant ysgol Tregaron a ffeindiwyd ar y ddôl, honno wedi bod rhyw bum mlynedd ar ei thaith.

Un arall oedd hysbyseb o Goleg Prifysgol Llambled yn gwahardd yfed ar y campws.

Diolch Dai am wneud gwaith Cloncyn yn haws.

Brâd Radio Ceredigion.

Gobeithio nad wy'n beirniadu rhain yn rhy fuan. Mae pawb rwyf wedi gyfarfod sy'n sôn am yr Orsaf yn siomi'n ofnadwy am yr hyn sy'n dod dros yr awyr y dyddiau yma. Os oes cwmni newydd yn cymeryd drosodd pam holi am beth mae gwrandawyr ei eisiau. Ei lle nhw yw darparu deunydd. Fe fedrwn roi barn arno wedyn. Roedd gan yr 'hen Radio Ceredigion' griw o wrandawyr ffyddlon fyddai a'r radio ymlaen drwy'r dydd, yn danfon cyfarchion a diolchiadau ac yn gwrandao ar leisau cyfoethog cyfarwydd yr ardal yn ei diddori.

Pam 'gythraul' (Rwy'n meddwl am eiriau lawer cryfach ond o ran parch fe wna hwn y tro) na fuasent yn cadw fformat oedd yn gweithio, ymlaen am y tro. Yn naturiol mae lle i newid ond dwli llwyr yw'n llethu a recordiau saesneg annealladwy gyda rhythm sy'n ddrwg i berson sy'n dioddef o anhwylder ar y galon. ac i glustiai pawb.

Mae'r criw ohonom sy'n byw ym 'Montlwyd' yn dal i recordio yn wythnosol. Nid yw'r hen 'Winston' wedi diflannu eto er ei fod wedi bod yn edrych yn y 'Western Mail' bob dydd i weld oedd e'n dal yn fyw. Pryd fydd y cyfan yn ail ddechrau – yn go fuan gobeithio. O leiaf mae gronyn o olau.

Pob hwyl am y tro. Diolch i'r llu daellenwyr am ddangos diddordeb yn y golofn.

CLONCYN.



Cofiwch am
Wythnos Cymorth
Cristnogol
9 - 15 Mai

DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYNLLUN ADDYSG GYMRAEG (DRAFFT) [o 12 Ebrill tan 31 Mai 2010]

Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi paratoi Cynllun Addysg Gymraeg sy'n egluro sut y bwriadwn ddarparu gwasanaethau addysg i chi yn Gymraeg ac yn ddwyieithog. Gwahoddwn sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd y gall y Cynllun effeithio arnynt. Gellir gweld copi o'r Cynllun Drafft wrth ymweld â'n gwefan www.ceredigion.gov.uk neu gellir gweld copi caled o'r cynllun drafft yn rhad ac am ddim trwy gysylltu â :


Dr Rhodri Llwyd Morgan
Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Aberystwyth
SY23 3UE
01970 633601
addysg@ceredigion.gov.uk

dros y ffôn, e-bost neu wrth lythyr.

Gallwch hefyd astudio'r Cynllun Addysg Gymraeg yn ein llyfrgelloedd, swyddfeydd y Cyngor Sir a chanolfan Cyngor ar Bopeth Aberystwyth.

Dylech anfon unrhyw sylwadau at addysg@ceredigion.gov.uk erbyn 31 Mai 2010.

Ar sail y sylwadau, byddwn yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno gyda'r Cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth.



MAI

- 7 Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Ffestri Capel Aberduar am 7y.h.
- 8 Y Pwerdy – diwrnod sesiynau blasu Pont Tyweli, Llandysul 11y.b. Yn rhad ac am ddim. www.pwerdypowerhouse.co.uk neu cysylltwch â Hazel ar 07973840285.
- 9 Rihyrsal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled ym Methel Silian am 2:00y.p.
- 14 Dosbarth Cadw'n Heini gyda J's Workout bob nos Wener o 8 - 9 yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni cost £3.50.
- 16 Gwasanaeth y Breninesau Undodaidd yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 3.00y.p.
- 16 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled yn Salm Caio am 2.30 y prynhawn a 6.00y.h.
- 17 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mehefin.
- 21 Helfa Drysor yn Llanfair Clydogau.
- 22 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Llanddeiniol.
- 29 Carnifal Cwmann ar gae'r pentref.
- 31 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar stad Llanerchaeron.

MEHEFIN

- 1-5 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar stad Llanerchaeron.
- 11 Côr Cwmann yn trefnu Cyngerdd yn Neuadd Felinfach am 8.00y.h. gyda Robin Lyn Evans, Kees Huysmas, Dai Jones a Angela Rogers Davies. Llywyddion - Dai ac Alwena Williams, Gwastod. Elw at Apêl Sioe Cardis.
- 11+12 Barbiciw a Gŵyl Gwrw yn Llanfair Clydogau.
- 14 Bingo yn y Clwb Rygbi, Llanybydder am 8y.h. Elw tuag at Cancr y Fron.
- 12 Ball C.Ff.I. Cwmann, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan
- 21 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf.
- 25 Rasys Sarn Helen yn Ysgol Gynradd Felinfach.
- 26 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog am 1:30y.p. Llywydd: Mrs Margaret Evans, Felinfach.

GORFFENNAF

- 2 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen am 4:00y.p.
- 3 Cangen NSPCC Llanybydder yn trefnu Dawns Haf yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, am 7.30y.h. Tocynnau ar gael wrth Ann Smith 01570 480306 neu Linda Davies 01570 480054. Yr elw yn mynd tuag at yr NSPCC
- 4 Cyngerdd gan Gôr Meibion Llanyddyfri yng Nghapel Maesyffynnon, Llanybi am 7:30y.h. Elw tuag at y capel.
- 19 – 22 Sioe Frenhinol Cymru – Sioe'r Cardis.
- 24 Ffair Fwyd Llambled.

AWST

- 13 Sioe Llambled.
- 14 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 21 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I Llanwenog.

MEDI

- 4 Sioe Llanyerwys.
- 11 Ffair Ram, Cwmann.

Diwrnod Maes y Sir

Cynhaliwyd Diwrnod Maes y Sir ym mart Tregaron eleni eto, a chafwyd diwrnod llawn cystadlu o safon uchel iawn. Dyma'r canlyniadau:

Effeithlonrwydd a diogelwch - 1af Troedysaur; Ffensio - 1af Llanddeiniol; Sialens ATV - 1af Troedysaur; Tîm Stocmon Hŷn - 1af Talybont; Tîm Stocmon Iau - 1af Llanwenog; Taith natur iau - 1af Caerwedros; Diogelwch iau - 1af Llanwenog.

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Talybont a Rhys Lloyd Jones, Llanddewi Brefi am ennill gwobrau'r stocmyn gorau.

Hefyd, cynhaliwyd cystadleuaeth newydd i'r sir eleni, sef Arddangosfa Sirol, lle roedd angen creu 5 eitem o grefft i bortreadu sir Ceredigion. Rhoddodd 9 clwb gynnig ar y gystadleuaeth, a llongyfarchiadau i glwb Llangeitho am ddod yn fuddugol.

Aelod hŷn – Lowri Jones, Caerwedros, Aelod iau – Megan Lewis, Trisant.

Llanwenog ddaeth i'r brig ar ddiwedd y diwrnod – da iawn chi!

Codi arian

Y diwrnod canlynol, bu criw o swyddogion y sir a rhai aelodau eraill yn cerdded llwybr yr arfordir, o swyddfa'r C.Ff.I. yn Aberaeron lan i safle'r rali eleni yn Llanrhystud. Ar ôl mynd trwy sawl pwddel o fwd a chroesi sawl afon, daeth pob un ohonom i ddiwedd y daith yn saff, gan godi arian at elusen C.Ff.I. Cymru eleni, sef Sefydliad Aren Cymru, ar yr un pryd.

Diwrnod Maes Cymru

Yn dilyn eu llwyddiant yn Nhregaron, aeth rhai aelodau ymlaen i gynrychioli'r sir yn Llanyddyfri, a dyma'r canlyniadau: Tîm Stocmon Hŷn yn 2il, gyda Menna Davies yn 2il fel unigolyn; Arddangosfa Sirol yn 3ydd; Sialens Natur Iau yn 2il, a llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cynrychioli'r sir, am i Geredigion ddod i'r brig ar ddiwedd y cystadlu!

Gala Nofio

Llongyfarchiadau i glwb Pontsian am ddod yn fuddugol yng ngala nofio'r sir a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar. Cafwyd cwpan newydd eleni am y nofiwr cyflymaf o bob cystadleuaeth, ac aeth y cwpan hwn i Emlyn Lewis o glwb Pennant. Diolch yn fawr i Alison Jones, clwb Llanddewi Brefi, am roi'r cwpan yn rhodd i'r sir.

Ymlacio

Daeth cyfle i ymlacio a mwynhau ar ôl dechrau prysur i'r flwyddyn, pan aeth 10 aelod o'r sir ar wyliau i Benidorm yn ystod gwyliau'r Pasg! Cafwyd gwyliau arbennig, a daeth pawb yn ôl wedi dal ychydig o liw haul...rhai yn fwy pinc na'i gilydd! Wedyn daeth hi'n gyfle i aelodau hŷn y sir fwynhau ar ddydd Sul y Pasg yng nghwmni aelodau clybiau eraill, ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw!

Cinio'r Cadeirydd

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yng ngholeg Llambled, lle bu tua 120 o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r sir yn cefnogi noson Cadeirydd C.Ff.I. Ceredigion eleni a llynedd, sef Arwel Jones a Daniel Downes. Roedd pawb wedi mwynhau codi arian i'r sir trwy gael sbri yn y rasys moch!

C.Ff.I. Ceredigion yn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed!

Mae trefniadau ar y gweill i drefnu'r rhaglen o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal flwyddyn nesaf ar gyfer ben-blwydd y sir. Bydd gweithdy arbennig yn cael ei gynnal yn Theatr Felinfach ar 17 Tachwedd eleni, lle bydd aelodau, cyn aelodau a ffrindiau'r mudiad yn dod at ei gilydd i gasglu syniadau am y sioe ddathlu. Mae croeso i bawb i'r digwyddiad hwn!

Clwb 200

Dyma enillwyr mis Ebrill: Mrs H M Davies, Maesronw, Bangor Teifi, Llandysul; David a Jayne Jones, Pantlleinau, Bontnewydd, Aberystwyth; Rhun a Ceris Fychan, Penwern, Cilcennin, Llambled.

Dyddiadau i'r dyddiaduron

- 22 Mai – Rali'r Sir – Llanddeiniol
- 5 Mehefin - Gig ar y cyd gyda Phwyllgor Ieuenctid yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, gydag Elin Fflur a Fushanti.
- 11 Mehefin – Rygbi 7 bob ochr y sir – Clwb Rygbi Aberaeron
- 19 Mehefin – Chwaraeon y sir – Llambled (gyda dawns i ddilyn)
- 25 Mehefin – Tynnu'r Gelyn – Clwb Rygbi Aberaeron.



D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

**Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT**

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr

☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Lle aeth pawb?



Llun Ysgol Coedmor tua 1934.

Emrys Jones, Pontnewydd; Evan Davies, Tynrhos; Albi Lewis, Rayland; Dennis Evans, Balford; Harold Lewis, Gwynfa; Dennis Morgan, Gwargat; Elwyn a Trevor Pencaeau.

Miss Evans (fach), Llanllwni; Glyn Todd; Betty Herbert, Coedmor Fach; Maggie Lloyd, Tyhowel; Mary Jones, Gellidewi Isaf; Phylis Jones, Coedeiddig Fach; Mary Lloyd, Tyhowel; Dennis Jones, Pontnewydd.

Arthur Jones, Plasbach; Nora Arrowsmith, Neuadd Fach; Adeline Jones, Glaneiddig; Megan Evans, Penwern; Ceinwen Edwards, Coedeiddig; Laura Palmer (symudodd i Gaerfyrddin); Gwen Herbert, Coedmor Fach; Ronian Herbert, Coedmor Fach a Mr Rhys Thomas y Prifathro.

Daeth y llun i sylw Clonc drwy law Ina Neuadd Fach gynt).

Os oes gan rywun arall hen lun a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr Clonc, yna cysylltwch â'r golygydd.

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn



Dan y drws yr wythnos hon daeth y rhifyn diweddaraf o 'Newyddion Cymuned', y papur a ddosberthir gan Gyngor Sir Gâr i bob cartref yn Sir Gaerfyrddin. Gallai fod yn bapur graenus a gwirioneddol ddefnyddiol yn cynnwys gwybodaeth werthfawr a thrafodaeth agored ar wasanaethau'r Cyngor. Fe allai fod, ond dyw e ddim.

Yr hyn sy'n drawiadol am rifyn Ebrill-Mai o 'Newyddion Cymuned' yw'r ansoddeiriau sebonllyd a ddefnyddir i ddisgrifio pob gweithgarwch y mae'r Cyngor Sir Gâr mor awyddus i'w grybwyll – perffaith, braf, da, arloesol, ysgubol, ardderchog, gwyd, arwyddocaol, arbennig. Ai dyma'r Cyngor rydych chi a mi'n ei adnabod ac yn talu treth i'w gynnal?

Tybed faint ohonom ni yng ngogledd Sir Gaerfyrddin fyddai'n barod i fentro dewis un o'r ansoddeiriau hyn i ddisgrifio cyflwr yr A485 ar ei hyd? Pa ansoddair a ddewisid gan denantiaid y Cyngor ei hun sy'n talu am wasanaethau nad ydyn nhw'n eu derbyn? A yw un o'r ansoddeiriau hyn yn briodol i ddisgrifio barn pobl fusnes Heol Awst, yn wyneb y taliadau am barcio ar y stryd mae'r Cyngor mor awyddus i'w cyflwyno? A beth yw barn pobl Llanelli am y diffeithwch a elwid yn ganol y dref ar un adeg? A dyna chi'r rhieni sy'n poeni am ad-drefnu addysg yn ardal Llandeilo-Llanymddyfri ac yng Nghwm Gwendraeth – pa ansoddair sy'n gymwys i ddisgrifio eu hymateb nhw i drefniadau'r Cyngor?

Dylai trethdalwyr Sir Gâr o leiaf ddisgwyl gweld cynnal trafodaeth aeddfed ar y pynciau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyh nhw gan Gyngor â'i fryd ar wasanaethau'r Sir. Afraid disgwyl y cawn ni ddim byd tebyg i hynny gan y criw presennol sy'n lliwio'r Cyngor Sir.

Nid dim ond Pryfyn sy'n ei gweld hi'n rhyfedd bod cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor yn cael eu fflipio'n gyson i gadw Ms Meryl, mewn grym. Y swyddi pwysicaf a'r lwfansau brasaf yn cael eu rhannu i sicrhau pleidlais i gadw sefyllfa Meryl yn gysurus – da, perffaith, ardderchog, gwyd. Dyna'r geiriau cysur ynte? A naw wfft i farn y trethdalwr a'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Ond mae'r llywodraeth, bellach, yn bwriadu deddfu i sicrhau bod cyfrifoldeb am gadeiro pwyllgorau craffu yn cael eu rhannu ar sail cryfder y gwahanol bleidiau ar bob cyngor. Byddai'r hyn sy'n digwydd yn Sir Gâr ar hyn o bryd felly, yn gwbl groes i ddeddf gwlad.

Soniais i ddim gair, hyd yma, am yr ail bapur a ddaeth i law yn ystod y mis: 'Llais Sir Gâr' sy'n casglu barn Panel o Ddinasyddion Sir Gâr ar amrywiol bynciau. Wyddech chi mai dim ond 2% o ddinasyddion Sir Gâr sy'n credu bod Cyngor Sir Gaerfyrddin yn llwyddiannus iawn o ran cyflawni eu cenhadaeth sef 'gwella ein ffordd o fyw ac o weithio'.

Cwestiwn arall a gododd oedd hwn: 'Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn rhoi gwerth da am eu harian i drigolion y Sir'. Dim ond 2% o ddinasyddion Sir Gâr a gytunai'n gryf â'r datganiad hwnnw.

Ar sail profiadau'r ddinasyddion o drethdalwyr, tybed a oes hawl gan Gyngor Sir Gaerfyrddin i ddewis geiriau fel 'ardderchog' a 'gwyd' i ddisgrifio pob gweithgarwch y maen nhw ynghlwm ag ef. Dim ond gofyn.

Drefach a Llanwenog

Cylch Meithrin Drefach

Pob hwyl i Gruffydd Tomos ac Iolo Mackay sydd wedi dechrau yn Ysgol Llanwnnen.

Croeso cynnes i'n plith Swyn Tomos, Megan Davies, Rhys Jones, Guto Dafis a Habib Elbeltagi.

Cyn gwyliau'r Pasg treuliodd y cylch fore yn Ysgol Llanwnnen. Ar ôl chwarae am gyfnod tu allan bu Miss Nia Davies yn gwneud cardiau ar gyfer y Pasg efo'r plant.

Diolch yn fawr am y croeso cynnes.

Ysgol Llanwenog

Hoffwn groesawu Rhodri Gregson i ddosbarth y Babanod. Dyma gymeriad sy'n gaffaeliad i'r dosbarth ac i'r ysgol. Hefyd, hoffwn groesawu Miss Lowri Wilson a Miss Angharad Evans atom i'r ysgol. Hyderwn y byddant yn hapus ac yn gartrefol iawn yn ein plith.

Yn ystod y tymor mae disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol wedi bod yn ffodus i dderbyn gwersi Dylunio a Thechnoleg gyda Mr Alun Jones fel rhan o'r cynllun pontio cynradd/ uwchradd cylch Llambod. Roedd disgyblion yn falch iawn i ddangos eu cynnyrch gorffenedig sef 'desk tidy' i weddill yr ysgol yn ystod gwasanaeth.

Braf yw nodi bod nifer o blant yr Adran Iau a oedd wedi mynychu'r Clwb Drama nawr yn mynd i gael cyfle i barhau i ymarfer ac i fireinio eu doniau actio wrth gymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwis Trafod a Chyflwyno Llyfrau Cymru. Bydd disgyblion o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan. Byddant yn trafod 'Dirgelwch yr Ogorf' gan T. Llew Jones a byddant yn cyflwyno 'Cadno Campus', gan Rohal Dahl. Maent wrth eu bodd gyda'r nofel 'Dirgelwch yr Ogorf' ac yn ysu eisiau gwybod pwy oedd Siôn Cwilt. Dymuniadau gorau iddynt i gyd ar ddydd Mawrth 11eg o Fai gyda'r cystadlu a'r perfformio! Diolch yn fawr iawn i Mrs Marian Morgan am ysgrifennu'r sgript gogyfer â'r achlysur hon ac i Mrs Linda Davies am hyfforddi disgyblion gyda'r gwaith actio ac i Miss Sioned Whitfield am hyfforddi'r grwpiau trafod. Mae'n gystadleuaeth hyfryd ac mae'r plant yn mwynhau bod yn rhan ohoni yn fawr iawn.

Mae gan yr Ysgol gysylltiadau agos iawn gyda Coleg y Drindod mewn nifer o ffyrdd. Un ohonynt yw trwy gydweithio gyda myfyrwyr sy'n dilyn cwrs 'Addysg yn yr Awyr Agored'. Fel rhan o'u gwaith astudio maent yn ymweld â ni yn rheolaidd i arsylwi arfer da o'r defnydd o'r ardaloedd allanol wrth addysgu disgyblion 'Cyfnod Sylfaen' a 'Cyfnod Allweddol Dau'. Croeso cynnes iddyn nhw wrth iddynt ymweld â ni eto yn ystod y tymor.

Llongyfarchiadau i Delyth-

Ann Jones, Rhys Evans a Gwen Thomas am ennill y cyfle i redeg yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Sir Ceredigion a gynhelir yn Llangrannog ar ddydd Gwener y 30ain o Ebrill. Dymuniadau gorau i chi wrth i chi redeg ar hyd yr arfordir. Gobeithio gwnaiff y tywydd braf parhau!

Yn ystod Ebrill cynhaliwyd etholiadau yn ymwneud â Chyngor Eco'r ysgol ac etholwyd Carys Jones, Ffion Evans, Delyth-Ann Jones, Jac Evans a Lowri Davies i fod yn aelodau o'r Cyngor yma. Yn sgil hyn mae disgyblion yr Adran Iau wedi cynnal arolwg i weld pa mor 'wyrdd' yr ydyn ni! Diddorol fydd clywed canlyniadau'r arolwg.

Braf oedd cael croesawu Mrs Janet Hawkins o Asiantaeth 'Bible Explorers' yn ôl unwaith yn rhagor i'r ysgol i gyd-weithio gyda'r Adran Iau i astudio'r Beibl ymhellach.

Daeth PC Gwyndaf Lloyd i gyflwyno gwybodaeth i rieni disgyblion yr ysgol am ddiogelwch wrth i blant defnyddio'r we. Gwnaethpwyd hyn fel rhan o'n cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Clwb Cant Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog, Ebrill 2010:

1af: Mrs Liz Mills - £15, 2il: Carys Jones - £10, 3ydd: Ffion Evans - £5.



Braf oedd cefnogi menter newydd Cylch Meithrin Clettwr gyda'i diwrnod hwyl 'rasys a chrefftau' yn ddiweddar. Bu'r plant yn brysur yn cystadlu yn yr adran gwaith llaw cynradd. Llongyfarchiadau i Kurtis Davies am gipio'r 3edd wobwr yn yr adran ffotograffiaeth (gweler uchod).

Nos Fawrth 13eg o Ebrill gwnaeth Adran Bro Gwenog ymgynnull yn yr ysgol am noson ddiddorol yng nghwmni Sirian Davies, Coed Lannau, Cwrtnewydd. Buont yn dysgu am sut i wneud wraps cyw iâr a 'smoothies' ac roedd rhaid eu bod yn flasus tu hwnt oherwydd doedd dim ar ôl i rannu ar y diwedd!! Byddant yn dysgu am sgiliau syrcau yn ystod y cyfarfod nesaf.

Cylch Meithrin Gwenog

Dydd Sadwrn y 15fed o Fai bydd

Cylch Gwenog yn cynnal bore o weithgareddau yn festri Eglwys San Pedr, Llambod i gychwyn am 11 o'r gloch. Bydd bwyd a chacennau, peintio wynebau ac ymwelydd arbennig yno. Croeso cynnes i bawb i alw heibio am baned a chlonc. Mwy o fanylion i ddilyn y tro nesaf.

Dyddiadau :-

Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog dydd Sadwrn 26ain o Fehefin, 2010, i ddechrau am 1.30y. gyda stondinau, BBQ, marchogaeth ceffyl, castell boncio ('bouncy castle') a chystadlaethau 'Her Cadw'n Sych'i blant cynradd ac yna i oedolion! Croeso cynnes i dimoedd o'r ardal i ymuno â ni. Llywydd y dydd Mrs Margaret Evans, Aeron View, Felinfach.

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Daniel ac Yvonne Evans, Tandderi ar enedigfaeth wyres fach newydd - Elin Mai, merch i Iona a Rhydian yng Nghribyn.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar ddiwedd Mis Mawrth fe deithiodd cryn dipyn o'r aelodau i fyny i Fart Tregaron ar gyfer Diwrnod maes y Sir. Dyma'r canlyniadau:- Tîm Barnu Stoc iau 1af, Ffensio 3ydd, Effeithlonrwydd â Diogelwch 2il, Sialens natur Iau 3ydd, Sialens Diogelwch Iau 1af, Arddangosfa Sirol 4ydd, Hyrwyddo Clwb 1af. Ar ddiwedd y diwrnod cyhoeddwyd taw Llanwenog oedd enillwyr y dydd. Cafodd Gwawr Hatcher a Carwyn Davies ei dewis i fynd ymlaen i gystadlu ar lefel Cymru yn y gystadleuaeth Sialens Diogelwch Iau. Hefyd bydd y tîm Hyrwyddo clwb sef: Gwennan Davies, Lowri Wilson, Sioned Davies a Carwyn Davies yn mynd ymlaen i gystadlu yn y sioe frenhinol ym mis Gorffennaf. Pob lwc i chi.

Cynhaliwyd noson o Seiat Holi gan y clwb ar y 29ain o Fawrth. Hoffwn ddiolch i Nerys Jones, Dai Davies a Wyn Thomas am ddod i ateb y cwestiynau a oedd gan yr aelodau i ofyn iddynt.

Daeth gala nofio'r Sir yn fuan ar ddechrau mis Ebrill. Roedd y clwb yn cael noson hwylus iawn gan gipio rhai gwobrau a dod yn 5ed ar ddiwedd y noson.

Fe deithiodd Gwawr a Carwyn i Fart Llanymddyfri i Ddiwrnod maes Cymru ar y 10fed o Ebrill. Cafwyd cryn dipyn o hwyl yn y gystadleuaeth sialens diogelwch iau.

Roedd y clwb wedi trefnu noson o rasys moch ar y 23ain o Ebrill. Diolch i bawb am ddod i gefnogi'r clwb a hefyd i Llion Davies am ddod â'r moch i ni gael ei rasio.

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn brysur yn ymarfer tuag at y Rali

a fydd yn cael ei chynnal yn Llanrhystud gan glwb Llanddeiniol.

Eglwys Santes Gwenog.

Cynhaliwyd cyfarfod Festri'r Pasg gyda'r Parchedig Ganon Aled Williams yn ein harwain. Diolchodd i bawb am eu gwaith diflino yn ystod y flwyddyn. Ail-etholwyd y swyddogion fel a ganlyn.

Warden y ficer - Mr Keith Goodall. Warden y bobol - Mrs Nia Evans. Trysorydd - Mrs Lynne Goodall. Ysgrifennydd - Mr Keith Goodall. Cynrychiolydd yr Eglwys yn y Ddeoniaeth - Mrs Wendy Mellor.

Diolch 'r Parch J.E.Jones, a'r Parch Neil Ryder am eu gwasanaeth yn ystod Suliau Mawrth. Diolch yn arbennig i'r Parch J.E.Jones am ei neges bwrpasol ar Sul y Pasg. Roedd yr Eglwys wedi'i haddurno gyda gosodiadau celfydd iawn o flodau a diolch i bawb am eu cyfraniadau, a'u hamedr i sicrhau naws hyfryd wrth i ni ddathlu'r Wyl bwysicaf yng nghalendwr blynyddol yr Eglwys

Cofiw am bawb sydd yn anhwylys a dymunwn adferiad buan iddynt.

Clwb 100. Chwefror - 1. Daniel Jones, Llan-gain, 2. Val Thomas, Llanllwni, 3. Mair Davies, Rhuddlan. Mawrth - 1. Anita Evans, New Inn. 2. Jeff a Carol Thomas, Drefach, 3. Wendy Lloyd, Llanybydder. Ebrill - 1. Andrew Goodall, Brigid, 2. James Fillery, Prague, 3. Cennydd a Dylan Williams, Llanarth.

Y Gymdeithas Hŷn

Mae tymor tripliau'r haf wedi cychwyn erbyn hyn, ac ar yr ail ddydd Mercher ym mis Ebrill, teithiodd 28 o'r aelodau tuag at Aberteifi; cael awr a thri-chwarter yno,- digon o amser am goffi ac ymestyn ychydig ar y coesau, cyn symud ymlaen i Hwlfordd. Treuliodd prynhawn hamddenol o gwmpas y dref, a phawb wedyn yn barod am swper yng ngwesty Nant-y-ffin, Clunderwen cyn dod am adre.

Blin iawn gan bawb oedd clywed fod Evan James Jones, Garth wedi marw, a mynegodd Dilwen George, Cadeirydd y gymdeithas, cydymdeimlad yr aelodau at Nanna ac Eric yn eu profedigaeth.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Borthcawl, gan deithio dros y Mynydd Du, ar y 12fed o Fai. Enwau i Yvonne 01570 480590.

Rhifyn mis Mehefin
Yn y Siopau
Mai 27ain
Yn gynnar oherwydd Eisteddfod yr Urdd
Erthyglau i law erbyn
Mai 13eg
Newyddion i law erbyn
Mai 17eg

Concro mynydd Kilimanjaro i godi arian at elusen

Llongyfarchiadau i Hywel Roderick, Awelon, Heol y bont, Llanbed a lwyddodd i ddringo mynydd Kilimanjaro yn Tanzania yn ddiweddar. Dyma'r mynydd uchaf ar gyfandir Affrica ac mae'r daith i'r copa yn 5,895 metr neu'n 19,341 troedfedd. Mae angen lefel uchel o ffitrwydd, ymdrech fawr ac agwedd benderfynol i gyrraedd y copa.

Mae Hywel wedi cymryd rhan mewn sawl sialens corfforol yn y gorffennol, sef rhedeg marathon, rhwyfo ar draws Mor Iwerddon, a theithiau beicio, a oedd dros gant o filltiroedd, nifer o weithiau. Ond, mae'n cyfaddef taw dringo Kilimanjaro yw y sialens anodda yn gorfforol a meddyliol iddo i wneud hyd yn hyn. Dywedodd bod yr awyr mor denau wrth agosau at y copa ac 'roedd hyn wrth gwrs yn creu anhawster i anadlu. O ganlyniad 'roedd yn anodd rhoi un droed a flaen y llall ac yn anodd hefyd i gadw cyd-bwysedd. 'Roedd y tymheredd wedi gostwng i 17 gradd o dan y rhewbwynt a hyn wrth gwrs yn ychwanegu at yr anhawsterau. Rhyddhad iddo oedd cyrraedd y copa cyn dechrau ar y daith luddedig yn ol lawr i'r gwaelod. Mae hon yn sialens y mae'n falch iddo lwyddo i'w chwblhau mewn pum diwrnod.

Mae Hywel, sy'n ddirpwy bennaeth Ysgol Aberporth, wedi medru codi dros £1,500 ar gyfer elusen Cancr Macmillan, ac mae am ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at yr achos teilwng yma. Dywedodd bod pobol wedi bod yn arbennig o hael.



O'r Cynghorau Bro



Cyngor Tref Llanbed

Maer: Selwyn Walters, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Mawrth 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Penderfynwyd anfon neges o gydymdeimlad ar y Cyng a Mrs Ramaya.

Penderfynwyd anfon neges i ddymuno'n dda i rieni yng nghyfraith y maer a fydd yn dathlu 70 mlynedd o fywyd priodasol ym mis Ebrill 2010.

Cyn i'r cyfarfod ddechrau cafwyd cyflwyniad gan Mrs Cheryl Jones, Cadeirydd Cronfa Cancr y Coluddyn yng Nghanolbarth Cymru, sy'n codi cyllid yn yr ardal a wasanaethir gan Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Penderfynwyd cefnogi'r elusen.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd ac offrymwyd gweddi gan y Cyng Greg Evans.

Bydd y cynnig i sefydlu parth ddialcohol yn y dref yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor Sir ar 13 Ebrill. Os caiff ei gymeradwyo caiff ei ystyried gan y cyngor llawn cyn diwedd Ebrill. Bydd angen gosod arwyddion mewn mannau priodol yn y dref cyn y gall y Gorchymyn fod yn weithredol.

Nodwyd bod baw cwn yn creu problem yn Parc St. Germain-sur-Moine.

Nodwyd bod amryw gwynion wedi'u derbyn am y bwriad i ddiffodd goleuadau stryd am gyfnod yn ystod oriau'r nos. Diogelwch oedd sail amryw o'r cwynion hyn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar y rhodd o £11,500 penderfynwyd rhoi'r arian yn gyfraniad at Neuadd Sgowtiaid Llanbed.

Mae biniau ailgylchu wedi'u gosod ym Mharc-yr-orsedd ac yn Sgwar y Farchnad.

Nid oedd Cyngor Ceredigion o blaid ailgynllunio'r fynedfa i faes parcio'r Rookery oherwydd gallai'r canlyniad fod yn beryglus i gerddwyr. Roedd rhai aelodau yn anhapus na fu ymateb i amryw ymholiadau eraill am drafnidiaeth yn y dref.

Bu ymateb cadarnhaol i wefan ddwyieithog newydd Cyngor y Dref.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Gwennan Davies, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 20 Ebrill 2010.

Croesawyd pawb i Neuadd y Pentref, Drefach gan y Cadeirydd.

Croesawyd Mr John Morgan o Gymdeithas Mynyddoedd y Cambria atom i siarad ynghylch gwrthwynebu datblygiad Melinau Gwynt ynghyd â chefnogi'r angen i ddynodi'r ardal fel ardal o brydferthwch eithriadol.

Cyhoeddwyd bod sedd newydd wedi ei wneud a'i roi yn ei le ar bont Cwrtnewydd gan Dai Davies, Caerwenog.

Danfonwyd llythyr i'r Cyngor Sir parthed y dwr yn cronni tu allan i Frongelli, Alltyblacca.

Bydd gwydr Perspex yn cael ei roi yng nghysgodfan Cwrtnewydd cyn diwedd Mis Ebrill.

Bydd llwybrau rhif 59/45 a 59/43 yn cael eu glanhau eto eleni.

Derbyniwyd nawdd rhannol oddi wrth y Cyngor Sir.

Bydd tri chynrychiolydd yn mynd i Aberaeron ar yr 11eg o Fai i drafod y mapiau a'r niferoedd tai ar gyfer y Plwyf yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae Baner newydd y ddraig goch wedi ei harchebu i'w roi yn Nrefach.

Mae llythyr wedi ei ddanfon i'r Cyngor Sir i ofyn am arwydd newydd i Lanwenog yn lle'r un sydd wedi ei ddwyn.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Capel Annibynol Brynteg parthed y dwr yn llifo i'r fynwent ac yn creu difrod. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor i ddatrys y sefyllfa. Daeth llythyr i law yn hysbysu fod grantiau ar gael i unrhyw Fenter Cymdeithasol gyda symiau o arian rhwng £30,000 a £125,000 drwy'r Cyngor Sir, cysylltwch â mariaw@ceredigion.gov.uk.

Clerc newydd y Cyngor Cymuned yw Gwennan Davies, Blaenderi, 13 Penbryn, Llanbed. SA48 7EU. Hoffai'r Cynghorwyr Cymuned ddiolch o galon i Wenella Evans am eu gwaith caled fel Clerc yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Clwb Ffermwyr Ieuainc

Dros yr wythnosau diwethaf mae aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann wedi bod yn hynod o brysur. Ar nos Wener y 5ed o Fawrth cafwyd noson o gawl yn neuadd Sant Iago Cwmann. Ymunodd cyn aelodau a ffrindiau gyda ni i ddathlu dydd gŵyl Dewi. Cyflwynwyd siec o £1,194.89 i Mr Aneirin Jones ar ran Sefydliad Prydeinig y galon ac i Mr Cyril Davies ar ran Ymchwil Cancr. Casglwyd yr arian gan aelodau'r clwb yn ystod digwyddiadau dathlu hanner can mlynedd ers sefydlu C.Ff.I Cwmann eleni.

Yr wythnos ganlynol cafwyd cyfarfod i drefnu cystadlaethau'r diwrnod gwaith maes a'r rali. Bu nifer o'r bechgyn draw yn safle'r mart yn Llanymddyfri yng nghystadleuaeth stocmon y flwyddyn. Fe welch hefyd arwydd ar ochr yr heol yng Nghwmann yn hysbysebu'r rali fydd ym mis Mai.

Ar nos Wener y 19eg o Fawrth bu aelodau'r clwb lawr yn Dunbia yn cael sgwrs a thaith o gwmpas ei safle yn Llanybyther. Roedd hi'n noson addysgiadol a diddorol cael gweld beth yn union sydd yn digwydd y tu ôl i'r llenni. Wedi ein hymweliad â Dunbia aethom nôl i Sainsbury's Lanbed. Fel yr ydych yn gwybod mae'n siŵr Dunbia yn Llanybydder sydd yn cyflenwi Sainsbury's a'u cig oen, felly roedd hi'n ddiddorol iawn gweld y daith roedd yr wyn wedi ei gymryd cyn cyrraedd y farchnad. Cafwyd gwybodaeth a ffeithiau am y siop yn Llanbed a chyfle i fynd allan i'r cefn i weld lle mae'r gwaith trefnu yn digwydd. Mawr yw ein diolch i gwmnïau a sefydliadau o'r fath am roi o'i amser a gadael i ni ymweld â nhw.

Fe ddaeth hi'n amser i'r clwb unwaith eto gymryd rhan yng nghyngerdd doniau lleol y pentref. Cafwyd perfformiadau di-ri gan wahanol sefydliadau'r pentref a'r clwb yn cyflwyno sgets a meim i'r gynulleidfa.

Cafwyd cwis yng nghwmni pwyllgorau lleol ar nos Wener y 9fed o Ebrill. Braf oedd gweld ystafell gefn y neuadd yn orlawn. Ein cwis maestir eleni oedd Mrs Pat Jones, ac roedd hi'n amlwg fod Pat wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar ein cyfer. Enillwyr y cwis eleni oedd tîm y WI. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Sefydliad y Merched Coedmor

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar Ebrill 6ed, gyda Elma yn y gadair.

Diolchodd i Tom James am fframio llun y cinio dathlu ag sydd i'w weld yn y ganolfan.

Yna aeth Elma ymlaen i gyflwyno y wraig wâdd sef Erika Davies o Felin Ban, Capel y Groes. Erika a'i gŵr sydd hefyd yn berchen meithrinfa blanhigion Grannell.

Cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei chwmmi yn sôn fel yr oeddent wedi dod i'r ardal o Loegr. 'Roedd ganddi ddiddordeb mewn planhigion ers yn blentyn ac yn cael y cyfle nawr i wireddi ei breuddwyd. Erbyn hyn mae ganddi 4 twnel plastic ac er mwyn rhwyddineb eu hadnabod maent wedi cael yr enwau "Tom, Dick, Harry a Steve".

Daeth a llawer o blanhigion graenus i'w gwerthu a diolchwyd iddi gan Iona Davies.

Taith ddigrel sydd fis nesa ar nos Fawrth Mai 4ydd, pawb i gwrdd am 6.45pm ger Heol Hathren.

Ysbyty

Rydym i gyd yn meddwl am Beti Williams, 3 Cwrt Deri ac yn danfon ein dymuniadau gorau iddi.

Clwb 225 Ebrill 10

1. 59, Cliff Thomas, Maes-Helyg, Cwmann, 2. 76, Mrs. Helena Gregson, Wrena, Cwmann, 3. 22, Jason Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 4. 192, Mrs. E Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann 5. 169, Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 6. 195, Mr & Mrs. Graham Hope, Postgwyn, Cwmann, 7. 189, Mrs Ruth Jones, Heol y Maes, Pencarreg, 8. 114, Mrs Nancy James, Emlyn Cottage, Cwmann, 9. 70, Mr Eric Harries, Aberystwyth, 10. 216, Mrs Mair Williams, 1 Railway Terrace, Cwmann.

Clwb 125 Ebrill 10

1. Mr. Alun Jones, Glanrhyd, Parc y Rhos, 80, 2. Mrs. Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg, 58, 3. Miss. Angharad Price, Stryd y Bont, Llambled, 33, 4. Mrs. Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann, 83, 5. Mr. Aled Evans, Hafod -y-Gan, Cae Ram, Cwmann, 39, 6. Mr. John Stevens, Capel Iago, Llanybydder, 94, 7. Mr. Jenkin Mason, 21 Treherbert, Cwmann, 130, 8. Mrs. Ceinwen Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 30, 9. Mrs. Marian Evans, Bronallt, Cwmann, 55, 10. Mrs. Ilse Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34.

Marwolaeth

Bu farw Miss Griffiths (Bessie) 1 Treherbert, yn Allt y Mynydd Dydd Llun Ebrill y 26ain. Cafodd ei tharo'n wael ddiwrnod cyn ei phen blwydd yn 90 oed ym mis Medi. Bu cynhebrwng yn Amlogsgfa Aberystwyth, Dydd Gwener Ebrill 30ain.

Diolch

Dymuna i Enid, Catrin a Richard ddiolch yn ddiffuant am bob neges o gydymdeimlad a phob gweithred o gefnogaeth yr ydym wedi ei dderbyn yn ein profedigaeth o golli Euros - priod a thad cariadus a thyner. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi cyfraniad y rhai hynny a gymerodd



Dr William Strange a Swyddogion Eglwys Sant Iago Cwmann yn cyflwyno siec i Siân Roberts Jones ar ran gronfa goffa Raymond Roberts tuag at Glefyd Motor Neurone. Arian a godwyd mewn Cyngerdd Nadolig.



Aelodau CFFI Cwmann yn cyflwyno sieciau am £1,194.89 i Mr Aneirin Jones ar ran Sefydliad Prydeinig y galon ac i Mr Cyril Davies ar ran Ymchwil Cancr - arian a gasglwyd yn ystod dathliadau clwb eleni.



Enillwyr cwis mudiadau lleol CFFI Cwmann eleni oedd Sefydliad y Merched Coedmor.

ran yn y gwasanaeth angladdol, a'r rhai hynny a fu'n weithgar yn y festri - diolchwn i'r ffrindiau a fu mor barod i ateb yr alwad am help llaw. Carwn ddiolch i Irfon a mam a fu yn gymorth ac yn gefn mawr i ni ar adeg anodd iawn ac am eu cysur a'u cariad tuag atom. Diolch hefyd i Eirwyn am ymgymered â threfnu'r cynhebrwng mewn modd parchus a theimladwy. Dymuna

teulu Bryneiddig hefyd ddiolch i'w cymdogion a'u ffrindiau am eu gofal a'u caredigrwydd parhaol tuag atynt, mae eich caredigrwydd yn amhrisiadwy. Diolch o galon.

Diolchiadau

Dymuna Lynette, Carol, Dennis a'u teuluoedd ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ddiweddar

Cwmann

yn eu profedigaeth o golli mam, mam-gu a hen-famgu annwyl sef Mrs. Elaine Davies, Esgair Newydd. Diolch hefyd i'r nyrsys a'r meddygon Meddygfa Taliesin a Gwilym C. Pride ei Fab a'i Ferched, Llambod.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 ar ymweliad Preswyl i wersyll yr Urdd, Llangrannog yn ddiweddar. Cafwyd amser gwych yno er waethaf y tywydd garw. Dyma rai adroddiadau plant y dosbarth.

Dydd Llun

Aethon ar y bws i Langrannog ar ôl cyrraedd cawsom ginio. Roedd y bwyd yn flasus iawn. Ar ol cinio aethon ar y cartiau modur. Roedd y cartiau modur yn mynd yn gyflym iawn. Yn ystod y dydd aethon ni i wibgartio. Roedd e yn llawer o hwyl wrth lithro lawr y rhiw ac redden i gyd yn wlyb sopen. Aethon i farchogaeth ceffylau nesaf ac roeddwn i yn reidio ceffyl o'r enw Persi. Ar ol swper aethon i wneud bach o ymarfer corff yn y ganolfan hamdden. Roeddwn yn chwarae pêl droed a llawer mwy o gemau eraill. Ar ol diwrnod blinedig iawn aethon i'r gwely ond roedd rhaid i Miss ddweud wrthym am fod yn dawel llawer o weithiau achos roedd pawb yn rhy gyffrous i gysgu.

Cari Haf, Blwyddyn 4
Dydd Mawrth

Ar Ddydd Mawrth aethon ni i nofio. Roedd yn hwyl iawn dyna i gyd oeddwn i yn gwneud oedd arnofio arno fflôt mawr, ac yn mynd yn wlyb. Roedd Chloe a fi yn taflu pêl draw at ein gilydd. Roedd y pwll yn hwyl iawn.

Iawn ar ôl mynd yn wlyb roedd y dosbarth yn cael mynd i'r gawod a pharatoi i'r disgo. Roedd y disgo yn cwl ac yn ffwnci. Roedd cerddoriaeth grêt a'r llawr ddawnsio yn grêt. Roedd Cari a Fi yn dawnsio o flaen camera Miss Davies wel na disgo i chi.

Dydd Mercher

Ar Ddydd Mercher aethon ni i sgîo. Oherwydd fi oedd y cyntaf yn y lein roedd y dyn yn gwybod enw fi ond mlaen da'r sgîo. Yn gyntaf doeddwn i ddim rhy uchel ond aethon ni yn uwch wedyn aethon ni nol i ystafelloedd ni i bacio lan a mynd nôl i'r ysgol i weld ein ffrindiau.

Mari Lewis, Blwyddyn 4

Bu trawsgwlad yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Trawsgwlad Dyfed yn ddiweddar. Gwnaeth y tîm cyfan yn rhagorol mewn rasys oedd yn cynnwys agos at 200 o redwyr gorau'r Sir. Mae rhaid son am Marek Owen a Beci Harrison yn arbennig am iddynt orffen yn y 10 cyntaf. (Marek yn 3ydd a Beci yn 8fed) yn eu rasys

hwy. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Bu tîm pêl-droed y bechgyn ar merched yn arbennig o lwyddiannus yng nghystadlaeth y Sir yn ddiweddar. Cyrhaeddodd y merched y gêm gynderfynol a'r pedwar uchaf. Yn y gemau grŵp, enillwyd tair gem, un gêm gyfartal a cholli yn yr eiliadau diwethaf o amser ychwanegol yn y gêm gyn derfynol. Enillwyd y gêm nesaf gan sicrhau 3ydd safle. Perfformiad arbennig wrth dîm ifanc iawn (gan gynnwys merched blwyddyn 4)

Mae'r ysgol wedi cofrestru ar gyfer bod yn ysgol iach ac mae'r ysgol eisoes wedi dechrau ar y gwaith gan ennill deilen gyntaf y cynllun. Cyflwynwyd y ddeilen gyntaf i'r ysgol mewn seremoni yng Ngholeg y Drindod ar ddydd Iau, Mawrth 18fed.

Bu nifer o blant CA2 yr ysgol mewn clyweliadau perfformio yn Felinfach yn ystod y tymor ar gyfer cymeryd rhan yn Sioe Gynradd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir yn Llanerchaeron fis Mai. Dewiswyd saith o ddisgyblion Carreg Hirfaen ar gyfer y sioe – Morgan Lewis, Chloe Lewis, Marek Owen, Tomos Jones, Mari Lewis, Naomi Davies a Lisa Elan. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac edrychwn ymlaen yn eiddgar ar gyfer gweld y sioe.



Bu Megan Davies o flwyddyn 2 yn llwyddiannus iawn gyda'i gwaith argraffu o dan y thema 'teimladau' Daeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth Sirol a Rhanbarthol. Llongyfarchiadau mawr i ti Megan. Rwyd wedi dod a chlod mawr i'r ysgol.

Pob lwc i barti Unsain yr ysgol a fydd yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron ar ddiwedd mis Mai. Mwynhewch y profiad bythgofiadwy.

Byddwn yn cynnal noson addysgiadol mathemateg yn yr ysgol, Nos Fawrth Mai 18fed am 6.00yh. Croeso cynnes i holl rieni'r ysgol.

Ffarmers

Marwolaeth

Soniwyd yn y rhifyn diwethaf fod Tom a Bet Steele wedi symud yn ôl i fyw yn Nhrefechan. Blin gennym bellach gofnodi marwolaeth Bet, ac estynnwn ein cydymdeimlad i Tom yn ei golled a'i hiraeth. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Eglwys Llanerchrys ar ddydd Mercher, y 14eg o Ebrill.

Eisteddfod yr Urdd 2010

Llongyfarchiadau i Anna Davies, Ailfana ac Elan a Mari Lewis, Llwynberllan ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Adran yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar. Mae Anna yn aelod o Barti Unsain Ysgol Carreg Hirfaen, ac Elan a Mari yn aelodau o'r Parti Deulais a'r Grŵp Dawnsio Cyfrwng Cymysg o Ysgol Ffynnonbedr. Pob lwc i'r tair ohonynt yn Llanerch Aeron ar ddiwedd y mis.

Priodas Arian

Estynnwn ein cyfarchion i Ceredig a Marianne Williams, Tanresger ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar, a dymunwn iddynt bob hapusrwydd am flynyddoedd i ddod. Priodwyd hwy yng Nghapel Ffaldybrenin ar yr 16eg o Fawrth, 1985.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Eleri Davies, Troed y bryn ar gael swydd newydd gyda'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith ym Mryste yn cychwyn ym mis Gorffennaf. Mae Eleri ar hyn o bryd yn gweithio yn Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Aberhonddu.

Pererindod y Pasg

Fel arfer ar ddydd Gwener y Groglith, ymunodd aelodau o Eglwys Llanerchrys ynghyd â chyfeillion o Eglwys Pencarreg a Chwmann i gario'r Groes o Ffarmers i'r Eglwys lle y cawsont wasanaeth a lluniaeth ysgafn. Mae'n dda gweld y plant wedi ymuno yn yr orymdaith.

Ysbyty

Mae Eirwen Lewis, Ty'nddol wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar, ond bellach wedi symud i Ysbyty Llanymddyfri. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi am adferiad buan. Yn yr un modd, Eleri Davies, Troed y bryn sydd wedi derbyn triniaeth law-feddygol yn Ysbyty Spire yng Nghaerdydd. Pob hwyl i'r ddwy ohonynt.

Neuadd Bro Fana

Mae'r gwaith o adnewyddu yr hen Gegin a'r Stordy yn y Neuadd bellach wedi cychwyn, gydag Eurig Jones, Erwau yn ymgymeryd a'r gwaith. 'Roedd y rhan yma o'r Neuadd yn arfer cael ei defnyddio ar

gyfer paratoi bwyd i blant yr ysgol, ond bellach, mae'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio fel siop a chaffi, gyda Jayne a Diane yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i drigolion y gymdogaeth.

Sioe

Cynhelir Sioe Llanerchrys eleni ar Ddydd Sadwrn y 4ydd o Fedi. Gellir cystadlu yn yr adrannau gwaith llaw, arlunio, ffotograffiaeth a chrefftau gwlad. Am fanylion pellach, cysylltwch a'r Ysgrifenyddion – Mrs Joan Stacey a M/s Karen Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin.

Alltyblaca

Diolch.

Dymuna Sarah Humphreys Jones, Frongelli ddiolch i'w chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod y salwch gafodd yn ddiweddar. Gwerthfawroga'r cyfan yn fawr iawn.


Sul y Blodau.

Mae carreg fedd yng nghapel Undodaidd Alltyblaca yn dwyn y geiriau - "Sarah Ann Doidge", Artist, a fu farw Tachwedd 28ain 1911. I'r mwyafrif o'r aelodau nid oedd hyn yn golygu llawer. Ar Sul y Blodau cawsant anerchiad gan James Lloyd (Siwper Jim) yn olrhain hanes yr arlunydd yma gan ddangos enghreifftiau o'u darluniau. Ganwyd hi yn Nyfnaint yn 1836 ac fe'u hyfforddwyd yn Llundain. Bu'n athrawes arlunio yn ysgol y Farwnes Rothchild yn Mentmore, cyfarfu a'r Brenin Edward nifer o weithiau ac roedd yn ffrind i'r awdur Charles Dickens. Dangoswyd ei gwaith yn flynyddol yn y Royal Academy a bu'n teithio Ewrop cyn sefydlu yn Aberdyfi dros yr Haf ac yn Aberystwyth dros y Gaeaf lle bu farw yn 1911. Roedd y Gweinidog y Parch Cen Llwyd wedi gofyn i'r gynulleidfada ddod a Chenhinen Pedr i'r oedfa. Ar derfyn y gwasanaeth gosodwyd nhw ar fedd Sarah Ann.

Am weld rhai o luniau'r arlunydd, rhowch enw'r Arlunydd yn "Google".

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Jack a Rayan Jenkins a'r teulu oll, Perthi ar eu profedigaeth diweddar o golli mam, mamgu a hen-famgu annwyl ym mherson Mrs Bessie Jenkins o Fydrilyn.



Llangybi a Betws

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir gyda pherthnasau'r diweddar Mrs Evanna Hughes o Aberystwyth - un a dreuliodd ei phlentyndod yn Fort Farm.

Adferiad Iechyd

Croeso adref a dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr i Mrs Rowena Williams, Maeslyn ar ôl iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili. Dymuniadau gorau hefyd am wellhad buan i Dylan Evans, Bronfa, yntau hefyd wedi treulio amser yn ysbyty Bronglais. Brysiwch wella eich dau.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys a Mr David Thomas, Maesfforest yn ei brofedigaeth o golli ewythr sef Mr Ivor Thomas, Pontcreuddyn. Cydymdeimlir hefyd a'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

Cydymdeimlir hefyd a Mr Alan Griffiths a'r teulu oll yn ei phrofedigaeth lem yn dilyn huno ei fam sef Mrs Betty Griffiths, Olmarch Isaf, lle y bu hi a'i phriod yn ffermio am flynyddoedd, ond yng nghartref Hafan Deg y treuliodd ei misoedd holaf. Cydymdeimlir a'r teulu oll yn ei galar.

Cydymdeimlir a'r teuluoedd canlynol sef Greenwell, Cilgwyn Uchaf, 1 Bro Dulais a Llwynonn - hwythau hefyd wedi colli perthnasau yn ddiweddar.

Hamdden

Ar brynhawn hyfryd yn dechrau Ebrill fe aeth yr aelodau a ffrindiau'r gymdeithas ar daith ddîrgel yn ddiweddar gan ddiweddu yn Swyddfa Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Aberystwyth lle y cawsom groeso cynnes a'n tywys o amgylch gan Mr Deian Creunant Davies. Mae llawer i adran o Swyddfa Llywodraeth Cymru wedi cael ei lleoli yma'n awr a hefyd mae yna gyfleusterau i'r cyhoedd yn y BONT lle mae modd cael gwybodaeth, mynediad i'r We, arddangosfa a lle i gael ymborth ysgafn. Ymwelwch hefyd a Swyddfeydd Newydd Ceredigion ac fe gawsom ein tywys o gwmpas y lle modern yma hefyd gan Mr Paul Williams a Mrs Joy Lake. Mae llawer o adrannau Cyngor Sir Ceredigion wedi ei sefydlu yma yn awr yn lle ei bod yn wasgaredig o amgylch Aberystwyth. I ddiweddu ein hymweliad yno cawsom de prynhawn bendigedig wedi ei baratoi gan staff y Cyngor. Enillwyd y Raffl gan Glenys Davies, Barry Willimas, Peggy Evans, Joy Lake, Evelyn Jones a Maureen Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ddydd Gwener Mai 7fed yn Ysgol y Dderi am 2:00 o'r gloch. Disgwylir ymweliad gan gynrychiolydd o Erddi Rhoslyn, Silian. Trefnwyd y daith i Aberystwyth gan Sally Davies.

Ysgol y Dderi

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Heini Thomas, Deffrobanni, Llanbedd ar ei phenodiad fel prifathrawes newydd Ysgol y Dderi. Yn bresennol mae'n brifathrawes yn ysgol gynradd Dihewyd. Dymunwn bob llwyddiant iddi wrth iddi ymgymryd â'r swydd ym Mis Medi.

Yn anffodus o ganlyniad i'r lludw o'r llosgfynydd yng Ngwlad yr Ia ni fu rhai o ddisgyblion a staff y Dderi ar eu teithiau tramor yn Nhwrci. Bwriadwn ail-drefnu gogyfer a 10fed o Fai.

Bu bechgyn blwyddyn 5 a 6 yn nhwrnamaint pêl droed yr Urdd ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ddiweddar. Cafodd y bechgyn amser da yn cystadlu.

Bu plant blwyddyn 4 lawr yn Neuadd y Celfyddydau yn Llambled i'r Gŵyl Waw. Roedd pob ysgol yn cynrychioli gwahanol wledydd. Bu plant y Dderi yn cynrychioli China.

Treuliodd criw o blant Bl 5 a 6 benwythnos lawr yn Llangrannog yng nghwmni Miss Lois a Sheila, roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Daeth Mr Tim Davies, ymgynghorydd y Sir i'r ysgol i ddangos i'r plant sut i greu ffilm animeiddio - roedd yn brofiad arbennig i'r plant.

Bu plant yr ysgol yn cystadlu yn y trawsgwlad - da iawn i bawb.

Mae cwmni ffilmio 'Cam wrth gam' wedi bod yn ffilmio ym mlwyddyn meithrin, derbyn 1 a 2.

Merched y Wawr

Ein gŵr gwadd ym mis Ebrill oedd Mr Geraint Evans. Treuliodd noson ddiddorol yn ei gwmni pan fu yn sôn am ei ddiddordeb mewn nofelau ei hunan ar ôl iddo ymddeol. Mae ei nofel 'Y Llwybr' wedi ymddangos ac mae'r ail 'Y Llafnau' bron a chael ei lansio. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch iddo am y wybodaeth a'i frwdfrydedd tuag at y gwaith o ysgrifennu gan Deborah Jones. Rhoddwyd y raffl gan Eleanor ac Iris ac fe'i enillwyd gan Irene a Gwyneth Jones.

Fe fydd swyddogion y gangen am 2010-2011 fel a ganlyn :- Llywydd - Lettie Vaughan, Is Lywydd - Gwyneth Evans, Trysorydd - Gwyneth Jones a Mair Spate fel Ysgrifennydd. Fe fydd Cangen y Dderi yn paratoi te i'r cyhoedd yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron ar brynhawn dydd Mawrth.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Ysgol Ffynnonbedr ar Fai 19eg am 6:30 y.h. ac yna pryd o fwyd yn y Castell Gwyrdd. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi ei rhoddi gan Jennifer a Mair. Cydymdeimlwyd a theulu'r ddiweddar Mrs Betty Griffiths - cyn aelod ffyddlon o'r gangen. Croesawyd y rhai a fu yn anhwylyd yn ôl i'r gangen gan ddymuno iddynt adferiad llwyr.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Hannah Davies i ddosbarth y babanod. Gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith.

Cynhaliwyd ein Eisteddfod ysgol ar brynhawn Gwener, Mawrth 26ain. Bu pob plentyn yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau - canu, adrodd, dweud jôc, dawnio, tynnu llun, llawysgrifen a sgets. Ein beirniad eleni oedd Mrs Margaret Evans o Felinfach, cyn athrawes Ysgol Llanwennog. Roedd wedi mwynhau'n fawr a diolchwn iddi am wneud y gwaith beirniadu. Tîm Talog oedd yn fuddugol a chyflwynwyd y darian i'r capteiniaid sef Jac a Gabi. Roedd yn braf gweld yr ysgol yn orlawn o rieni a ffrindiau wedi dod i fwynhau a chefnogi. Diolch yn fawr i chi gyd.

Cymerodd yr Adran Iau ran yn nhrawsgwlad yr Urdd, Cylch Llambled. Pob lwc i Ceris Howells, Rhian Thomas, Gabi Wilton-Baker a Scott Douglas a fydd yn mynd ymlaen i drawsgwlad y sir yn Llangrannog.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ebrill: £10 - 85 - Adam Hallmark, Frondeg. £5 - 185 - Marged Smith, Ty Cefn, Rhydargaeau. £2.50 - 135 - Mair Lewis, 1 Penrhiw, Aberbanc. £2.50 - 30 - Nancy Evans, Llannerch. £2.50 - 66 - John Lloyd, 13 Bryndulais, Llanllwni.

C.Ff.I Llanllwni

Ar 27 o Fawrth cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes C.Ff.I Sir Gâr yn Mart Llanymdyfri. Braf odd clywed ar ddiwedd y dydd bod Betsan Evans ac Owain Davies wedi dod yn trydydd yn y gystadleuaeth 'Junior Safety Competition'. Llongyfarchiadau i Meryl Davies am gael ei ethol yn Ddirprwy Llysgenhades C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r clwb yn brysur iawn ar hyn o bryd yn paratoi tuag at y rali flynyddol a fydd yn digwydd ar 8 Mai yn Maes Sioe Caerfyrddin.

Diolch

Dymuna Huw ac Anwen, Park Lane ddiolch i bawb wnaeth anfon cardiau, anrhegion a chyfarchion ar enedigaeth eu mab Iestyn Daniel.

Cydymdeimlad

Hoffai'r ardal gyfan gydymdeimlo a theulu y diweddar Charles Evans, Tŷ'r Ardd (Charlie, Auctioneer).

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i David ac Ann Thorne, Glennydd ar enedigaeth wyres, Lois Angharad, merch fach i Rhys a Gwyneth a chwaer i Griff a Moc.

Llanwnnen

Capel y Groes

Cynhelir Gwasanaeth y Breninesau Undodaidd yng Nghapel y Groes, Llanwnnen ar ddydd Sul 16 Mai am 3.00. Wrth i Manon Richards derfynu ei chyfnod fel Brenhines Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion dyma gyfle i gydnabod y naw Undodwraig arall sydd hefyd wedi bod yn freninesau yn y sir.

Ysgol Llanwnnen

Bu rhai o'r plant yn cystadlu yn Eisteddfod Capel-y-Groes dros Wyliau'r Pasg. Cafodd Ellen Jones yr ail wobwr a Heledd Jenkins y drydedd wobwr yn Canu 8 oed tan oed Ysgol Gynradd a'r Parti Unsain a'r Parti Llefaru'r 2il wobwr.

Braf yw nodi bod Holly Cooper o flwyddyn 3 wedi cael y wobwr gyntaf yng ngwaith Serameg/Crochenwaith Bl. 3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010. Edrychwn ymlaen at ei weld yn Llanerchaeron ar ddiwedd y mis.

Croesawn dri phlentyn newydd i ddosbarth y babanod sef Gruffydd Tomos, Iolo Mackay a Kieran Herbert. Gobeithio erbyn hyn eu bod i gyd wedi setlo yn eu hysgol newydd!

Bu disgyblion Bl. 5 a 6 lawr ym Mhrifysgol Llambled yn ddiweddar hefyd. Buont yn siarad ag yn perfformio sioe Ffasiwn o ddillad Lesotho.

I ddiweddu Adran yr Urdd am y flwyddyn eleni, aeth nifer o blant yr ysgol lawr i Wersyll yr Urdd, Llangrannog ar nos Iau, 29ain o Ebrill. Cafwyd lot o sbri yn sgïo a gwibgartio er waetha'r tywydd!!

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorized & Regulated by The Financial Services Authority

Cwrtnewydd

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Mair Rees, Seion Cottage benblwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod i'w gofio.

Priodas Ruddem

Yn ddiweddar dathlodd Evan a Margaret Jones, Caeglas eu Priodas Ruddem ac yn ystod mis Mai fe fydd Lyn ac Eileen Rees, Tanrhos yn dathlu yn yr un modd. Llongyfarchiadau mawr i chi eich pedwar. Iechyd da ac ymlaen yn awr i'r AUR!

Ar wellhad

Gobeithio erbyn hyn fod Naomi Long, Llys Alaw yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Yn ystod y mis gwelwyd colli un o anwyliaid y pentref ym mherson Mr Evan James Jones, Garth. Nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau ers peth amser a bu'r gofal a gafodd gan ei wraig Nanna yn un enfawr. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Nanna a'i fab Eric a'r teulu ymestynedig yn eu colled a'i profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd a James ac Olga Thomas, Brynderw ar golli ei brawd yng nghyfraith a bu farw yn sydyn iawn ac roedd ef yn byw yn Llanpumsaint.

80 oed

Penblwydd Hapus i Mrs Nanna Jones, Garth a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed yn ystod y mis. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathliad er waetha'r amgylchiadau.

Ysgol Gynradd Cwrtnewydd

Enillwyr Clwb 100 - Mis Ebrill 1af - Eiddwen Hatcher, Cefnhafod, Gorsgoch. 2ail - Enid Jenkins, Haulfryn, Mydroilyn. 3ydd - Catherine Davies, 12 Cae Sarn, Cwrtnewydd. 4ydd - John Davies, Tynfron, Cwrtnewydd.

Diolch

Dymuna Nanna ac Eric, Garth ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar golli priod a thad annwyl.

Ysgol Cwrtnewydd

Croesawyd pawb yn ôl wedi gwyliau Pasg digon gwlyb. Bu rhai o'r plant yn brysur hefyd dros y gwyliau yn cystadlu yn Eisteddfod Capel y Groes, llongyfarchiadau i Barti Llefary ac i Barti Unsain yr ysgol ar gipio'r wobr gyntaf yn y ddwy gystadleuaeth a hefyd i bob unigolyn a gymrodd rhan.

Ar y bore cyntaf nôl cafodd plant y dosbarth hyn gyfle i gael sesiwn rygbi dan ofalaeth bechgyn y chweched dosbarth o Ysgol Uwchradd Llanbed.

Cafodd blwyddyn 3 - 6 gyfle i fod

yn rhan o Sialens 'Knex'. Cafodd y plant brynhawn wrth eu boddau yn cynllunio a chreu melyn wynt. Ar ddiwedd y prynhawn daeth un o'r llywodraethwyr sef Lyn Rees a'i wraig i mewn i ddyfarnu'r gwaith. Rhys Davies a Kiera Cashel a ddaeth i'r brig. Da iawn blant.

Daeth PC Gwyndaf Lloyd i'r ysgol i gael sgwrs gyda phlant 3 a 4 am a hefyd bu blwyddyn 5 a 6 yn trafod peryglon y we.

Mae'r plant yn ffodus iawn i gael nifer iawn o glybiau ar ôl ysgol y tymor hwn. Maent wedi bod yn cael hyfforddiant tenis, clwb heini, clwb garddio a dawnsio.

Bu plant blwyddyn 6 yn ymweld â'r Ysgol Uwchradd dan gynllun Pontio. Bu'r plant yn creu teclyn dal pensiliau a phren mesur dan arweiniad Mrs Alan Jones.

Mae holl blant yr ysgol wedi bod yn brysur iawn yn cynllunio a chreu arwydd i hysbysebu Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron, Ciliau Aeron. Gellir gweld yr arwydd ar gae Blaenhirbant-uchaf rhwng Alltybig a Chwmsychpant.

Llanfair

Mwynhad yn y Neuadd

Does dim teimlad yn well na gweld y neuadd yn gysurus lawn a phawb yn cael mwynhad yng nghwmni eu gilydd. Dyna beth ddigwyddodd wythnos ddiwethaf yn y neuadd ar ddau achlysur. Ar Nos Iau, Ebrill 22ain daeth torf niferus ynghyd i wrando ar Gerald Morgan yn siarad am lwybrau'r arfordir o'r Dyfi i'r Teifi. Noswaith o bur fwynhad gyda phawb wedi mwynhau ei wybodaeth a'i firwdfrydedd neilltuol gyda lluniau gwych o arfordir Ceredigion. Daeth a rhai copïau o'i lyfrau i'w gwerthu a gwerthwyd pob un ohonynt. Noswaith agored Sefydliad y Merched oedd hon gyda mwy na hanner cant wedi troi i fyny. Gwnaethpwyd y diolchiadau gan Lesley a'r bwyd gan Katy, Yola a Jane.

Noson Gwis

Cynhaliwyd cwis ar nos Sadwrn Ebrill 24ain gyda thua 28 wedi troi i fyny i gymeryd rhan. Rhannwyd pawb mewn timau o bedwar gyda saith bwrdd a'r cwestiynau wedi eu paratoi gan Linda a Laurence Quelch. Y bwrdd llwyddiannus oedd bwrdd Katy, Claire, Dave a Francoise. Llongyfarchiadau iddynt. Daeth pawb a bwyd i'w rannu a chodwyd £32 at y neuadd. Cafwyd noswaith ddiddorol a hwylus dros ben.

Sefydliad y Merched - Rali Haf

Llongyfarchiadau cynnes i Iris Quan ag Elaine Coombes am ennill yn adran coginio a gwnio yn y Rali Haf yn Nhregaron Dydd Sadwrn Ebrill 24ain.

Croesawu'r Eisteddfod



Cynrychiolwyr o Adran Llambod yn ymyl yr arwydd a gynlluniwyd ac a greuwyd gan blant yr Adran i groesawu Eisteddfod 2010. Gellir gweld yr arwydd yn Heol y Gogledd.



Plant babanod Ysgol Ffynnonbedr a fu'n peintio baner i groesawu Eisteddfod yr Urdd 2010.

Pen-blwydd Pentre Bach!

Mae Pentre Bach yn dathlu ei bumed pen-blwydd ddiwedd Mai eleni!

Ydych chi wedi bod yno eto? Os ydych chi, fe fyddwch yn gwybod fod rhes o dai ac adeiladau ym mhentre Blaenpennal, sydd ryw bum milltir o Dregaron i gyfeiriad Aberystwyth yng Ngheredigion, wedi cael eu haddasu yn arbennig ar gyfer ffilmio cyfres deledu i blant o'r enw 'Pentre Bach'. Ffilmiwyd y gyfres gan gwmni cynhyrchu Sianco ar gyfer S4C ac erbyn hyn mae tua 80 o raglenni wedi eu creu yn adrodd hanesion am yr enwog Sali Mali, Jac y Jwc, Bili Bom Bom, Coblyn a Pili Pala a llu o gymeriadau lliwgar eraill.

Mae'r pum mlynedd ddiwethaf wedi bod yn eithriadaol o brysur ac mae'r 'pentre' yn mynd o nerth i nerth yn ôl y perchennog Adrian Savill.

'Oherwydd natur hyblyg y cyfleusterau, mae'r lle yn benthg ei hun ar gyfer pob math o achlysuron e.e. ar gyfer grwpiau fel tripiâu ysgol, clybiau cysgu i ysgolion, cynadleddau preswyl, dathliadau Diwrnod y Llyfr, cyrsiau ysgrifennu creadigol ac ati. Yn ogystal mae Mentrau Iaith, grwpiau o fyfyrwyr o golegau a phrifysgolion yn ymweld â ni a chymdeithasau megis Merched y Wawr, Sefydliad y Merched ac Ysgolion Sul yn trefnu teithiau dirgel yma. Rydym wedi cynnal partion pen blwydd yma i bob oedran o flwydd oed i 100 oed!'

Gellwch fynd yno ar eich gwyliau unrhyw adeg o'r flwyddyn ac aros yn un o'r pedwar ty hunan-ddarpar, sydd wedi eu graddio yn 4 seren gan Croeso Cymru. Mae dewis o Dy Mopïau sy'n cysgu pedwar, Gwesty Pili Pala sy'n cysgu wyth, Siop Sioni Bric-a-moni sy'n cysgu pump neu Ty Pel-droed sy'n cysgu chwech. Mae nifer yn llogi'r tai i gyd ar gyfer gwahanol achlysuron e.e. dathlu pen blwydd, aduniadau teuluol, parti clwc (hen party) ac ati.

Pentre Bach, Blaenpennal, Aberystwyth, Ceredigion SY23 4TW
01974 251676 pentrebach@btconnect.com www.pentrebach.org

Llanbedr Pont Steffan

Merched y Wawr.

Ar nos Lun Ebrill 12ed aeth saith ar hugain o'r aelodau i Dŷ Bwyta Eidaleg sef "La Calabria" ger Bwlch y Groes.

Cyn ein pryd bwyd canodd y perchennog sef Gino Vasami ddwy gân deimladwy iawn yn Eidaleg. Yna cafwyd pryd blasus ardderchog a phawb yn mwynhau yn enwedig yr hufen iâ.

Aeth ein llywydd Aerwen ymlaen i gyflwyno ein gŵr gwadd sef Gino drwy benillion o'i gwaith. Cafwyd hanes ei Dad yn dod yn garcharor i Gamp Henllan ac yna mynd nôl i'r Eidal ar ôl blwyddyn, ond oherwydd effaith y rhyfel a diffyg gwaith daeth yn ôl i Gymru gyda'i wraig a'r ddau blentyn. 'Roedd yn sôn am y broblem iaith a'r hiraeth, yr amser llwm a chaled iawn ond fod y Cymry wedi rhoi o'i gorau iddynt, caredigrwydd di ben draw. Symud o le i le er mwyn cael rhagor o dir ac yna yn 2003 prynu fferm Rhyd Goch a sefydlu y Tŷ Bwyta ardderchog a'r ddihareb "Mewn llafur mae elw" yn dod yn hollol wir.

Diolchwyd iddo gan Mair Lewis ac wrth ddiolch dywedodd mae da o beth fyddai cael llyfr o'i waith.

Yna cyflwynodd Aerwen y penillion cyfarch i Gino.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Caniadaeth y Cysegr

Bydd cyfle i glywed rhan o'r Gymanfa Ganu a drefnwyd gan gangen Merched y Wawr yn Noddfa y llynedd ar raglen Caniadaeth y Cysegr ar Radio Cymru am 4.30 Sul 30 Mai. Yr arweinydd oedd Rhiannon Lewis, Carys Lewis yn unawdydd a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Margaret Jones ac Elma Phillips. Cyflwynir yr emynau gan Janet Evans.

Aelwyd yr Urdd

Daeth criw o'r aelodau ynghyd i Ysgol Ffynnonbedr i noson o weithgareddau amrywiol yn ymwneud a'r Pasg wedi eu trefnu gan Geinor Medi. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn ceisio codi wyau bach a gwelltyn, yn cymryd rhan mewn rasys wy a llwy ac yn mwynhau helfa wyau Pasg. Diolchodd Sian Elin i Geinor Medi am eu pharatoadau manwl gan sicrhau noson hynod ddifyr i bawb. Llongyfarchwyd yr aelodau ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd gan Janet.

Nos Fawrth, 13 Ebrill bu'r aelodau yn ymweld â'r Ganolfan Hamdden. Eto mwynhawyd y noson yn fawr iawn yn rhôl sgelfrio ac amlygwyd talent ambell un gyda rhai yn treulio mwy o amser ar y llawr nag ar eu

traed! I gloi'r noson cafwyd gemau pêl droed cyfeillgar gyda'r bechgyn a'r merched yn ymuno yn y sbort.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar nos Fercher 31ain o Fawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mrs Gwendoline Jones, Llanybydder yn arwain. Enillwyr oedd fel a ganlyn –

Dynion – 1af. Gwendoline Jones, Llanybydder, 2ail. Ray Jenkins, Llanybydder, 3ydd. Emrys Evans, Llanllwni. Merched – 1af. Beryl Roach, Felinfach, 2ail. Harry Williams, Ystrad Aeron, 3ydd. Gwen Davies, Llanwnnen. Carden Miniature, Dynion – Edward Lockyer, Hafan Deg. Merched – Nancy Evans, Llanllwni. Bwrw Allan – Enillwyr, Margaret Jones, Pentre Bach a Emrys Evans, Llanllwni, 2il. Ray Jenkins, Llanybydder a Morfudd Slaymaker, Llambled.

Ar nos Fercher 14eg o Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion – 1af. Peter Jones, Llamed, 2il. Gwendoline Davies, Llanwnnen, 3ydd. Gwendoline Jones, Llanybydder. Merched – 1af. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled, 2il. Gwenda Thomas, Cwmann, 3ydd. Cathrina Davies, Aberaeron. Carden Miniature – Dynion – Emrys Evans, Llanllwni, Merched – Dilwen Roderick, Llambled. Bwrw Allan – Enillwyr – 1af. Margaret Jones, Pentrebach a Ray Jenkins, Llanybydder, 2il. Cathrina Davies, Aberaeron a Mai Williams, Tregaron. Bydd y Gyrfa oedd Chwist mis Mai ar nos Fercher 12fed a 26ain. Croeso cynnes i bawb.

Noddfa

Daeth nifer teilwng ynghyd o bob oedran i noson arbennig iawn yn Noddfa i ddathlu'r Pasg. Braf oedd gweld teuluoedd cyfan yn bresennol. Cyfle oedd hwn i atgoffa pawb o wir ystyr y Pasg ar yr un pryd mwynhau cwmni ein gilydd mewn noson gymdeithasol ac anffurfiol. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parch Jill Tomos ac yna darllenwyd llythyr o anogaeth yr apostol Paul i'w gyfeillion yng Nghorinth gan Myfanwy ac ychydig o eiriau o'r Testament Newydd yn son am baratoadau gwledd y Pasg gan Margaret, Alwyn a Tudor. Offrymwyd gras gan Lisa cyn ein bod yn cyfranogi o'r prif gwrs ardderchog oedd wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Wedyn bu pawb yn dyst i weithred syml Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion mewn ffordd effeithiol gan Llinos, Derek, Tomos Rhys, Osian a Sian Rhandir fel llafarydd. Yn dilyn hyn mwynhawyd yr ail gwrs sef dewis o bum pwdin chwaethus iawn oedd

yn tynnu twr o'r dannedd. Wedi paned o de daeth noson hyfryd i ben gyda'r Gweinidog yn gweinyddu'r cymun. Braf oedd gweld y plant hefyd yn rhan o'r ordinhad bwysig hon wrth iddynt dderbyn siocledi bach a sudd afalau gan y Gweinidog. Cyn troi tuag adref diolchodd y Parch Jill Tomos i bawb am eu cefnogaeth parod. Talodd John deyrnged uchel iddi hithau am ei pharatoadau trylwyr, i Janet am drefnu'r darllenwyr ac yn olaf ond nid y lleiaf i'r gwagedd am eu cyfraniad amhrisiadwy wrth y bwyd. Tystiai pawb ein bod wedi cael noson fendithiol a phleserus dros ben wrth ddod at ein gilydd i ddathlu gorfoledd y Pasg.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Dymunir yn dda i Aled Wyn Thomas, Elliw Mair Dafydd a Gwawr Hatcher hynglyd a phartion deusain a cherdd dant yr Aelwyd a pharti unsain yr Adran sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron. Mae nifer o aelodau'r Adran a'r Aelwyd hefyd yn rhan o'r sioeau cynradd ac uwchradd. Felly pob lwc i bawb.

Urdd y benywod Brondeifi

Ar nos Iau, Ebrill 15fed croesawyd ni i'r Cyfarfod Blynnyddol gan ein Llywydd Beti Evans. Cyflwynodd ein gwraig wadd sef Gwenda Davies, aelod gweithgar iawn yng Nghapel Brondeifi. Daeth Philip Powell gyda hi i arddangos rhai o'r trysorau yr oeddent wedi dod 'nôl gyda hwy o'r India. Pwrpas eu taith oedd i gwrdd â ffrind i Philip nad oedd wedi ei weld ers hanner can mlynedd. Roedd y ffrind yma yn filwr gyda'r Gurkhas a bu yn amser emosiynol iawn pan gyfarfu y ddau ar ôl yr holl amser. Yna cawsom hanes y daith yn ei chyfanrwydd gan Gwenda. Roeddent yn teithio ar y rheilffordd i Shinla, Darjeeling ac Ooty ar drenau stem. Buont yn ymweld â'r Deml Aur yn Amritsar. Aethant hefyd i'r "Blue Mountains" ac wrth gwrs i ymweld â rhyfeddod hwnnw sef y Taj Mahal. Dywedodd bod y daith wedi bod yn brofiad arbennig a bythgofiadwy iddynt. Diolchwyd i Gwenda am noson ddiddorol tu hwnt gan Dilwen Roderick. Etholwyd y canlynol yn swyddogion am y tymor nesaf; - Llywydd - Beti Evans, Is-Lywydd Elinor Russell, Ysgrifennydd - Phyllis Jones, Is-Ysgrifennydd - Mary Jones, Trysorydd - Salli Jones, Gohebwyd y wasg - Morfudd Slaymaker a Dilwen Roderick.

Bedyddwyr

Cyhhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yn Salm, Cio ar ddydd Sul 16 Mai gyda'r plant yn y prynhawn am 2.30 a'r oedolion am

6 o'r gloch yr hwyr. Yr arweinydd gwadd yw Mrs. Elonwy Davies, Llanybydder a llywyddion y Gymanfa yw Mrs. Gwen Davies, Bethel Silian a Mrs. Ann Jones, Salem Caio. Croeso cynnes i bawb. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Clocsiwr Ifanc

Llongyfarchiadau i Steffan Long o Gaerdydd, mab Aiden a Mair (gynt o Haulfryn, Maesyllan) ar ennill y gystadleuaeth cloccio dan 15 oed yn yr Eisteddfod Rhanbarth ac yntau ond yn 9 oed yn ddiweddar. Pob lwc iddo yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanerchaeron ar ddiwedd y mis.

Tŷ Capel Shiloh Llambled

Mae'r tŷ yma ar gael i'w osod ar rent heb ddodrefn - 3 ystafell wely gyda'r holl gyfleusterau, wedi ei adnewyddu yn ddiweddar i safon uchel.

Am fwy o fanylion cysyllter â Twynog Davies – 01570422880.

Adran Llambled

Mae Eisteddfod yr Urdd yng Ngheredigion, yn agosáu ac mae'r aelodau wedi bod yn paratoi'n frwd i hysbysu pawb o'r digwyddiad i'r holl drigolion y dref. Maent wedi cynllunio a chreu baner i ddathlu Eisteddfod 2010. Mae'r faner wedi ei lleoli yn Heol y Gogledd a diolch i'r Bwrdd Iechyd am ganiatáu iddi fod yno. Llauer o ddiolch hefyd i Dai Jones am baratoi'r pren a'r ffrâm ac i Dylan Dudley am gynorthwyo Dai i osod yn faner yn ei le. Hefyd mae diolch i'r holl blant yr Adran (55 ohonynt i gyd) wnaeth peintio.

Mae rhai aelodau'r Adran wedi cael cyfle i fynd am benwythnos i Langrannog. Llauer o ddiolch i Anthea Jones am roi o'i hamser i fynd gyda nhw.

Ar nos Lun 26 o Ebrill roedd yr aelodau wrthi unwaith eto yn cynllunio a chreu poster i ar gyfer yr Eisteddfod, i roi o gwmpas y dref, yn siopau ac yn eu cartrefi. Bydd pawb yn gwybod bod yr Eisteddfod ar y ffordd i Lanerchaeron!

Mae 'na fwydlen arbennig o weithgareddau ar gyfer gweddill y tymor, ar nos Lun Mai 10fed bydd yr aelodau medru cymryd rhan mewn noson o chwaraeon gyda Mr Wyn John a Mrs Nia Costello. Wedyn ar Fai 24, bydd yr aelodau yn dilyn camau Dai Llanilar, wrth ymweld â fferm Emyr a Delyth Jacobs i gloi ein rhaglen am yr Haf.

Hoffai'r arweinyddion Llinos, Anthea a Rhian ddiolch i bawb am eu cymorth yn ystod y flwyddyn ac os oes syniadau ar gyfer gweithgareddau ar gyfer y Mis Medi mae 'na chroeso i chi cysylltu.

Cymdeithas Hanes

Newidiwyd ychydig ar raglen

Llanbedr Pont Steffan

flynyddol y gymdeithas y mis diwethaf, gan gynnal y Cyfarfod Blynnyddol ym mis Ebrill yn hytrach na mis Medi; bydd hyn yn hwyluso paratoi'r cardiau aelodaeth ar gyfer tymor 2010-11. Rhoddodd y Cadeirydd, Selwyn Walters, adroddiad ffafriol iawn o'r cyfarfodydd ers mis Medi, y gynulleidfa wedi bod yn ardderchog bob tro, a'r siaradwyr yn arbennig. Derbyniwyd adroddiad y trysorydd, Ruth Russell-Jones, a hwnnw hefyd yn dra boddhaol.

Ail-etholwyd y Swyddogion, ar wahân i'r Trysorydd, a ddymunodd ymddiswyddo oherwydd oriau gwaith. Gan fod neb wedi gwirfoddoli, penderfynwyd trefnu dilynydd i'r swydd yn y pwyllgor gwaith nesaf.

Aeth y cadeirydd ymlaen i groesawi'r siaradwr gwadd, sef y parch. Towyn Jones, Caerfyrddin. Ef yw gweinidog yr Annibynwyr yn Heol Awst, ac Elim, Ffynnonddrain, ond mae hefyd yn dal y swydd anrhydeddus o fod yn Gadeirydd Cymdeithas Hanesyddol Sir Gaerfyrddin.

Testun ei araith oedd "Ffaith, Ffuglen a Chwedloniaeth", pwnc y mae ganddo ddiddordeb mawr ynddi, yn enwedig ym maes ysbrydion. Dywedodd fod yna lawer o storiâu, a gredir eu bod yn wir, ond yn nonsens llwyr, tra bod rhai eraill a gredir eu bod yn ddwl, ond fod yna ruddan o wirionedd yn perthyn iddynt.

Dyfynnodd o amryw lyfr yn ymhél ag ysbrydion, - llawer ohonynt yn ail-adrodd beth a gofnodwyd eisoes, ond o fynd nôl i wreiddyn y stori, darganfod fod 'na ddim o'r fath beth yn bod, - ac ambell i awdur yn cyfadde' mae stori wneud oedd hi, er ei bod wedi cyflwyno'r stori yn wreiddiol fel un gwir.

Cyfeiriodd at gof y werin bobol, - er bod yna 'rywbeth' wedi digwydd cymaint â sawl canrif yn ôl, mae ambell i hanesyn yn dal yn gryf mewn gwahanol ardaloedd, ac ofergoeliaeth yn dod ynghlwm â'r storiâu hynny. Adroddodd nifer o straeon 'ysbryd', - rheiny'n ddigon i anfon ias i lawr y cefn, -- ond, - tybed ac o'n nhw'n wir?!

Diolchwyd yn gynnes i Towyn Jones gan y Cadeirydd am noson eithriadol o ddiddorol.

Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth, Mai 18fed yn yr Hen Neuadd, pan fydd Dr. John Morgan-Guy yn sôn am 'Trysorau Celf Feiblaidd' yn ardal Llambod. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Cinio

Daeth cyfarfodydd y tymor i ben nos lau 1af Ebrill gyda chyfarfod "Noson y Gwragedd". Priodol iawn ar yr achlysur hwn oedd croesawu yn westai Mrs

Ann Davies, prifathrawes Ysgol y Dderi, Llangybi. Fe'i cyflwynwyd gan y Llywydd y Bnr John Davies a soniodd am ei chefnidir fel un a fagwyd a chafodd ei addysg gynnar yn y fro a hefyd am nodweddion ei gyrfa. Bu'n brifathrawes ysgol Penuwch cyn symud i ysgol y Dderi ac yn y flwyddyn 2006 fe'i anrhydeddwyd yn brifathrawes y flwyddyn yng Nghymru. Braf hefyd oedd cael cwmni ei phriod y Cyng. Odwyn Davies.

"Teithiau" oedd thema araith Mrs Davies, ac yn sgil yr hanesion o'r holl gysylltiadau rhyngwladol a gychwynnwyd ganddi yn 1996 i ehangu a chyfoethogi profiadau plant clywsom hefyd am agweddau ar ei gwaith yn Llangybi, er iddi sôn amdanynt yn gwbl ddiymhongar, oedd yn arloesol. "Dysgu", "Rhannu" a "Gofalu" sydd wedi bod yn fwriadau i'w chynllun o'r cychwyn gyda'r disgyblion "yn y canol" gyda'r holl gynllunio, paratodau a phrofiadau. Bellach, wedi adeiladu a dal i gynnal cysylltiadau gydag ysgolion yn nifer o wledydd yn Ewrop dros y blynnyddoedd, mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiad gydag ysgol yn Tsieina. Braf oedd gweld cyfres o sleidiau o ymweliadau Mrs Davies â'r ysgol honno a'r holl weithgaredd sydd wedi deillio o hynny-gweithgareddau cwricwlaidd y disgyblion, y dathliadau yn yr ysgol yn cynnwys y gymuned, dathlu Y Diwrnod Rhyngwladol a blwyddyn newydd y Tsieineiaid yn y Confucius Institute ym Mhrifysgol Llambod. Yn wir, bwrlwm o weithgareddau hynod iawn ac unigryw eu natur.

Y Bnr John Beaufort Williams a gynigiodd y diolchiadau. "Cyfarfod ardderchog i gloi'r tymor". Dymunodd yn dda i Mrs Davies sydd yn ymddeol eleni. Diolchodd hefyd i'r Llywydd a'r swyddogion am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.


Y Cyng. Hag Harris yw'r Llywydd am y flwyddyn nesaf gyda'r Bnr. Elfan James yn Is-lywydd.

Ysgol Ffynnonbedr

Bu plant Adran y Babanod yn gweithio'n galed i greu baner i hysbysebu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Lluniwyd baner liwgar o dan oruchwyliath Anita Evans a Sandra Davies. Lleolwyd y faner ar Heol Llanwnnen gan Dai Jones a Dylan Dudley. Carai'r ysgol ddiolch iddynt am eu gwaith.

Mae'r Adran hefyd wedi creu baner ac mae hon wedi'i lleoli o flaen y Bryn ar Heol y Gogledd. Ewch i weld y ddwy.

Bu nifer helaeth o'n disgyblion yn llwyddiannus ar lefel sirol - gwelir hwy'n y llun. Y rhai a ddaeth yn gyntaf ac a fydd yn cystadlu ar lefel genedlaethol yw Ruth Davies - Gwaith Creadigol Bl 2 : Lowri



Yn ystod noson olaf y tymor trosglwyddodd y Llywydd presennol John Davies y gadwyn i Lywydd 2010-11 sef Cyng Hag Harries. Y swyddogion eraill yw Owen Jones, Ysgrifennydd y Wasg; Elfan James, Is-Lywydd; Dan Griffiths, Ysgrifennydd Siaradwyr; Alan Morgan, Trysorydd a Tim Jones, Ysgrifennydd Cofnodion.



Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Gelf yr Urdd ar lefel Sirol. Derbyniwyd nifer o wobrau cyntaf, ail a thrydydd.



Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr a ddewiswyd i gymerid rhan yn Sioe Gynradd Eisteddfod yr Urdd 2010.

Davies Print du a gwyn : Meirion Thomas Dylunio a Thechnoleg Bl 5 a 6 : Arteffact ailgylchu Zakirah a Zahirah Mohamad Zaidi. Llongyfarchiadau i bawb ohonynt.

Dylir nodi hefyd y bydd y gwaith Celf a Thechnoleg a grëwyd gan ddisgyblion yr ysgol yn cael ei arddangos yn siopau'r dre dros yn Eisteddfod. Diolch i'r Cyng Dorothy Williams am ddod â'r syniad o Gyngor y Dre.

Mae ein diolch yn fawr unwaith eto i Gyngor y Dre am drefnu Disgo i'r plant. Bu'r Maer y

Cyng Selwyn Walters gyda ni'n mwynhau'r gerddoriaeth a'r dawnio! Harold oedd wrth y llyw. Paratowyd diod a danteithion hefyd i'r plant.

Mae Cymdeithas Rien i ac Athrawon yr ysgol mewn cydweithrediad a 'duet a lan lofft' wedi trefnu Sioe Ffasiynau yn y Coleg. Mawr yw diolch yr ysgol i Mrs Janice Williams a Miss Angharad Williams 'duet a lan lofft' am gynnig i gynnal y noson ac hefyd i swyddogion y Gymdeithas am ymgymryd â'r gwaith.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Ifan Rhys Jones

Oed: 19

Pentref: Cribyn

Gwaith: Briciwr

Partner: Dim eto.

Teulu: Dad, Mam, John.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae gyda merched drws nesaf.

Hoff raglen pan yn blentyn.
Tomos y Tanc.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Cerdded yn fy nghwsg a dihuo yn nerbynfaf'r gwesty ym Magaluf, yn fy mhants.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Peidio chwarae â thân.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Chwarae rygbi yn broffesiynol.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Cusan gyntaf o dan y lleuad mewn barn dance yng Ngorsgoch.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gyda theulu a mas gyda ffrindiau.

Pwy yw dy arwr?
Gethin Jenkins.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Pawb yn nabod ei gilydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Dim tafarn yng Nghribyn.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl sy'n meddwl eu bod nhw'n well na phawb arall.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000?
Car newydd.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Mam pan mae'n dechrau gweiddi.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?



Ym mharti Gwenan Cwmcoedog.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan gaeodd y dafarn yn gynnar.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuo ynddo yn y bore?
Tu fas carafan Twin yn y Sioe Fawr.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Methu dweud, mae mam-gu yn siwr o ddarllen!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
'Bennu coleg a throi yn friciwr proffesiynol.

Ac yn bersonol?
Cael fy nghais cyntaf mewn gêm rygbi.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert ac i gadw'n gryf?
Mynd digon at Wyn y barbwr a hyfforddi.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n

heini?
Chwarae rygbi a thynnu'r gelyn.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Mesur dwywaith, torri un waith.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Lot o sbort.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Serchog a bonheddig.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Vaxhaull Astra.

Beth yw dy hoff air?
Mae'n odli gyda "lwc"!

Beth yw dy hoff wisg?
Jîns a chrys rygbi.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Cheryl Cole.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Chinese.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Rygbi world.

Beth yw dy hoff arogl?
Cinio dydd Sul mam.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gorwedd a gwyllo teledu.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Facebook - 205 ffrind.

Hoff gân ar dy ipod?
Guns and Roses - Sweet Child of Mine.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Gari Davies. Roedd e ar 'Pobol y Cwm'.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Cefn cryf.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
X box 360.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Sgïo.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Gweithio ym Mhantygwin.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Eirwyn Pantygwin.

Y gwyliau gorau?
Tralee 2006.

Arferion gwael?
Siarad yn fy nghwsg.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Bod mewn mwy nag un man ar yr un pryd.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Angharad Williams, Capeli.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		9		4		8
		3		7		4
				1	6	3
9			3			5
	4		5		9	2
	7		4			9
1			6	2		
	6			9	3	
5			4		1	

Atebion Swdocw mis Ebrill:

Llongyfarchiadau i **Augusta Davies, Kings Mead, Llambod** a diolch i bawb arall am gystadlu: Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder; Hannah Evans, Hafdre, Cwmann; Betty Prydderch, Tyngrug, Llanllwni; Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Teifion Williams, Bronallt, Llangadog; Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Jean Griffiths, Fronddu, Cwrtnwydd a Glenys Davies, Gell Aur, Llanybder.

9	4	3	5	2	6	8	7	1
6	7	8	4	1	9	3	2	5
2	5	1	3	7	8	9	6	4
3	1	2	8	6	7	5	4	9
8	9	7	1	4	5	2	3	6
5	6	4	2	9	3	1	8	7
4	3	9	6	8	1	7	5	2
7	2	5	9	3	4	6	1	8
1	8	6	7	5	2	4	9	3

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau
cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau
lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a
phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr,
cynfas a phapur dyfriliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

W.D. Lewis a'l Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llambed

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Gwmsychpant

Cwrdd Pawb Ynghyd

Ar brynhawn hyfryd o Wanwyn yn
ystod mis Ebrill cynhaliwyd Cwrdd
Pawb Ynghyd Capel-y-Cwm gyda
'r Parch Wyn Thomas yn llywyddu
a Meleri Williams, Clynoch wrth
yr organ. Braf oedd cael croesawu
cyfeillion o bell ac agos i'r oedfa
- rhai sydd yn cyfrif Cwm yn gartref
ysbrydol iddynt.

Gymanfa Ganu

Bu Osian Davies, Fronheulog yn
darllen emyn dros Capel-y-Cwm yn
y Gymanfa Ganu eleni a gynhaliwyd
yng Nghapel Llwynrhydowen,
Rhydowen.

Anffawd

Yn anffodus cafodd Owain Jones,
Blaenhirbant Uchaf anffawd adref
ac wedi torri ei fraich. Brysfa Wella
Owain.

Pentrebach

Diolch

Dymuna Lilian Jones, Central
Garage, ddiolch yn fawr i bawb
am yr holl gyfarchion ac anrhegion
dderbyniodd ar ei phen blwydd yn
80 oed yn ddiweddar.

Ŵyres fach

Llongyfachiadau i Clive a Liz
Mills, Ffynnon Fair am ddod yn
ddateu a mamgu i Anna Fflur, merch
fach i Bethan a'i gŵr Keith yn
Rhydowen.

Cellan

Gwellhad Buan

Gwellhad buan iawn i Mr Norman
Carter, Gwel y Waun wedi ei gyfnod
yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Pencarreg

Diolch

Dymuna Vera Edwards, 7 Heol-
y-Maes, Pencarreg ddiolch o
waelod calon am yr holl gardiau,
blodau, anrhegion a galwadau ffôn
a dderbyniodd yn ddiweddar pan
ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed.
Diolch hefyd am y rhai fuodd yn helpu
a gweini wrth y bwyd ar ddiwrnod y
parti a gynhaliwyd yn Festri Aberduar.
Diwrnod bythgofiadwy. Diolch yn
fawr iawn i chwi i gyd.

Cancer y Fron - BINGO -
Nos Lun, 14eg o Fehefin 2010
Clwb Rygbi Llanybydder 8:00y.h.
Gwobrau ariannol.
Croeso cynnes i bawb.
Elw tuag at Ward Meurig
Aberystwyth Prawf Bron Cymru.

Llanybydder

Sefydliad y Merched Llanybydder



Llun o aelodau Sefydliad y Merched Llanybydder yn dathlu pen-blwydd
y gangen yn 70 oed yn y Llew Du Llanybydder ar y 8fed o Ebrill 2010.
Deuddeg o aelodau, wyth o hen aelodau a phedair o swyddogion mudiad Sir
Gar ddaeth at ei gilydd i ddathlu.

Y rhai gwadd oedd Mrs Nema Edwards - Is-lywydd Ffederasiwn Sir
Gar, Mrs Pat Thomas Ysgrifenyddes Sir Gar, Mrs Beryl Owen Is-lywydd y
Celfyddydau a Hamdden a Diane

Yn eistedd mae Mrs Heather Davies - Llywydd, Mrs Lizzie May Lloyd
Is-Lywydd ac aelod hynaf ar hiraef o gangen Llanybydder, Mrs Diana Harper
- Trysorydd a Mrs Rosemary Parry - Ysgrifenyddes.

Hefyd yn y llun mae Abigail Hooper baban bach un o'r aelodau. Efallai
y daw i fod yn aelod o'r gangen yn fuan iawn. Cafwyd noson hwylus iawn,
bwyd bendigedig a chwmni da, gyda llawer o chwerthin wrth edrych nôl
ar yr hen luniau. Cafodd Mrs L M Lloyd tusw o flodau gan y llywydd ar yr
achlysur hapus hwn ar ran yr aelodau. Mrs Rosemary Parry wnaeth gacen y
dathlu.

Bu Gwenda Davies wrth yr organ, gan wneud y noson yn un i'w chofio, a
phawb yn cael hwyl yn canu llawer i gan hen a newydd. Fe fydd yna groeso
bob amser i aelodau hen a newydd yn y gangen yn Llanybydder.

Ysbyty

Gwellhad buan i Tom Jones Bodeinon sydd wedi cael llawdriniaeth yn
ddiweddar.

Diolch

Dymuna Mary Jenkins, Brynrhosyn ddiolch i bawb am y cyfarchion a
chafodd wedi triniaeth yn ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Dymuna Nerys a Rob, ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r rhoddion
a dderbyniwyd ar achlysur enedigaeth ei mab, Dion Steffan, brawd bach i
Joshua. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd yn fawr.

Cerdd

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Davies, Tyngrug Isaf ar basio arholiad
Piano Gradd 2 yn ddiweddar ac i Yvonne Evans, Tandderi, ar lwyddo gyda
Theilyngdod yn Gradd 2 Piano.

Hefyd Llongyfarchiadau i Meleri Davies, Tyngrug Isaf ar basio arholiad
ysgrifenedig Gradd 4 o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

Eich Ardal Chi - Eich Barn Chi

Mae tenantiaid a phreswylwyr yn Llanybydder wedi cael cyfle i ddweud
beth sy'n bwysig iddynt am yr ardal lle maent yn byw.

Maent wedi bod yn gweithio gyda staff Tai Cyngor Sir Caerfyrddin. Bu
Grŵp Cyflawni'r Prosiect Gwaith Amgylcheddol yn cynnal arolwg o'r bobl
sy'n byw ar safleoedd y Cyngor yn Llanybydder i gael gwybod beth sy'n
bwysig iddynt am yr ardal lle maent yn byw.

Cafodd canlyniadau'r arolwg eu lansio mewn digwyddiad hwyl i'r teulu a
gynhaliwyd ym Mro Einon, Llanybydder.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr a chafwyd llawer o wybodaeth a
chyngor am y prif bryder a nodwyd yn yr arolwg, sef baw cŵn. Roedd cyfle
i gael gwybodaeth a syniadau i helpu i ddatblygu'r cais mwyaf poblogaidd a
nodwyd yn yr arolwg, sef bod y coetir lleol yn cael ei ddatblygu mewn modd
priodol i'w ddefnyddio gan y gymuned.

Roedd uchafbwyntiau eraill y diwrnod yn cynnwys ymweliad gan CHES,
yr arth wen sy'n fasnog ar gyfer Gwasanaeth Cyngor ynghylch Ynni yn
y Cartref Sir Gaerfyrddin, paentio wynebaw, gweithgareddau chwarae,
lluniaeth, raffl fawr, a stondinau a gwybodaeth am y Prosiect Gwaith
Amgylcheddol, rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Rhwydweithiau
Tenantiaid Sir Gaerfyrddin.

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan



Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Dyma'r canlyniadau:- Unawd Merched BI 7-9 Meleri Davies 2ail, Unawd Bechgyn BI 7-9 Aron Dafydd 2ail, Unawd Merched BI 10-19oed Elliw Mair 3ydd, Unawd Bechgyn BI 10-19oed Aled Wyn Thomas 1af, Deuawd BI 10-19oed Aled Wyn Thomas a Chris Ashton 1af, Unawd allan o Sioe Gerddorol BI 10-19oed Elliw Dafydd 2ail, Cyflwyno Alaw Werin BI 7,8,9 Gwawr Hatcher 1af, Unawd Llinynnol BI 7-9 Llion Thomas 3ydd, Unawd Piano BI 7-9 Gwawr Hatcher 3ydd, Unawd Pres BI 7-9 Joshua Yardy 3ydd, Unawd Piano BI 10-19oed Sioned Davies 3ydd, Unawd Telyn BI 7-9 Lowri Jones 2ail, Unawd Cerdd Dant BI 7-9 Lowri Jones 2ail, Unawd Cerdd Dant BI 10-19oed Elliw Mair 2ail, Llefaru Unigol BI 7-9 Lowri Jones 3ydd, Llefaru Unigol BI 10-19oed Elliw Dafydd 2ail, Llefaru Unigol BI 7-9 (D) Max Zinn 2ail, Monolog BI 10-19 oed Elliw Mair 1af, Parti Merched BI 7,8,9 3ydd, Parti Bechgyn BI 7,8,9 2ail, Côr S.A. BI 7,8,9 3ydd, Côr Bechgyn T.B. BI 13 ac iau 2ail, Ensemble Lleisiol BI 13 ac iau 3ydd, Grŵp Llefaru BI 7,8,9 2ail, Grŵp Llefaru BI 10-19oed 3ydd, Grŵp Llefaru BI 7,8,9 (D) 1af, Ymgom BI 7,8,9 2ail, Dawnsio Disgo Unigol BI 10-19oed Mererid Rees 2ail, Dawns Cyfrwng Cymysg BI 7 -19 oed 2ail.

Pob lwc i'r rhai fydd nawr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanerchaeron mis nesaf.

Dyma ganlyniadau Celf a Chrefft:- Serameg/Crochenwaith BI 9 Sion Evans 1af, Dion Mason George 3ydd, 3D Cywaith dan 25 oed (Angh. Arb.) (C) 1af, 3D dan 25 oed (Angh. Arb) (D) Joshua Hemming 1af, Mwgwd neu Byped BI 9 Gwawr Hatcher 1af, Creu Artefact BI 9 Dewi Uridge 1af, Creu Artefact BI 10 ac 11 Rhys Davies 3ydd, CAD / CAM BI 7-9 Gethin Morgan 1af, Elin Gwyther 3ydd, CAD / CAM BI 10 ac 11 Carwyn Davies 2ail

Bu arlunydd o fri rhyngwladol yn yr ysgol yn ddiweddar i weithio gyda grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 10-12. Esboniodd Helen Elliott beth oedd yn ei hysgogi i arlunio a dangosodd hefyd y technegau y mae hi'n eu defnyddio i greu eu darluniau naif a lliwgar.

Bu arlunydd lleol, Victoria Malcolm, hefyd yn yr ysgol yn cynnal gweithdy ar ran y 'Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol' ar gyfer y gystadleuaeth arlunio genedlaethol 'Young Brits at Art', sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn. Bu disgyblion yn datblygu syniadau ac yn darlunio sut fyddai'r byd yn edrych heb ragfarn. Y mae'r gystadleuaeth ar agor i ddisgyblion o 11 i 18 oed ac fe fydd gwaith y buddugwyr yn cael eu arddangos yng Ngaleri Saatchi yn Llundain.

Cydweithiodd yr Adran Gelf a'r Adran Saesneg i gynhyrchu bwrdd graffiti yng nghanban 14. Roedd angen adnewyddu'r 'stafell ac felly aeth grŵp o ddisgyblion blwyddyn 9 ati i wneud gwelliannau. Fe wnaethon nhw gynllunio a chreu hysbysfwrdd newydd gan ddefnyddio sgiliau a ddysgwyd mewn gweithdy graffiti. Thema'r cynllun deniadol oedd 'geiriau'. Aelodau'r tîm graffiti oedd Dominic Dalton, Aaron Hunter, Luke Hunter a Tommy Thomas.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Max Zinn o flwyddyn 7 a Kara Davies o flwyddyn 8 ar ennill yr ail a'r drydedd wobwr mewn cystadleuaeth farddoniaeth. Cyflwynwyd y wobwr iddynt ar Fawrth 4ydd gan yr amgueddfa yn Aberystwyth. Y mae'n bosib darllen y cerddi buddugol ar wefan yr amgueddfa.

Mae disgyblion o'r ysgol wedi bod yn gwneud ffilm newydd ar gyfer y gystadleuaeth 'Animation 10'. Lleolir y ffilm yn y llyfrgell ac mae'r disgyblion yn cael eu trawsnewid i fod yn gymeriadau yn eu llyfrau darllen. Mae yna 'Zombies', 'Orcs' a hyd yn oed 'Darth Vader'. Mae set y llyfrgell wedi cael ei chreu yn barod yn ogystal â'r 'Noobarian' a hefyd nifer o 'Noobs' ofnus iawn.

Ymwelodd disgyblion blwyddyn 11 â Theatr y Grand yn Abertawe i weld perfformiad 'To Kill a Mockingbird', er mwyn paratoi ar gyfer eu harholiad Llenyddiaeth Saesneg.

Gwlad hardd wedi ei hamgylchynu gan Dde Affrica ydy Lesotho gyda dwy ran o dair o'r wlad yn fynyddig hyd at 3400m uwch y môr. Fe'i gelwir felly y 'Frenhiniaeth Fynyddig'. Mae Ysgol Sant James mewn llecyn tawel yn y mynyddoedd. Mae rhai disgyblion yn cerdded milltiroedd i gyrraedd eu gwersi, ac eraill sy'n dod o bellter yn aros dros nos yn yr ysgol mewn ystafelloedd cyfyng. Gelwir pobl Lesotho yn Basotho ac maen nhw'n bobl groesawgar a chyfeillgar.

Fel rhan o gyswllt Dolen Cymru – Lesotho, ymwelodd Mrs Pat Jones â'r ysgol yn ystod yr Hanner Tymor ym mis Chwefror. Aeth allan â llyfrau, peniau a phensiliau ynghyd â pheli pêl droed, pêl rwyd a phêl foli a ddefnyddiwyd ar unwaith! Bu'n dysgu nifer o'r disgyblion a oedd yn



awyddus i ddysgu, er gwaethaf y dosbarthiadau mawr.

Mae disgwyl i'r plant dalu am eu ffioedd dysgu ac am lyfrau ysgrifennu. Mae yna brinder mawr o lyfrau gwybodaeth ac offer dysgu modern yno.

Dengys y llun Gyfarwyddwr Addysg Ardal Mokhotlong yn derbyn tarian gan

Mrs Pat Jones gyda phrifathrawes St. James, Sr. Anna Lereko.

Mae'r staff yn falch o'u cyswllt â Llanbed ac yn awyddus i ddysgu am ddulliau addysgu diweddar ac hefyd gweinyddu. Edrychwn ymlaen at groesawu un o athrawon St. James i ysgol Llanbed yn yr Hydref.

Fel rhan o waith cwrs Teithio a Thwristiaeth, mae disgwyl i ddisgyblion BI 13 drefnu taith. Eleni, fe benderfynodd y grŵp drefnu taith i Efrog Newydd ar ôl eu harholiadau allanol ym mis Ionawr. Ar ôl llawer o waith ymchwil a threfnu, cafwyd chwe diwrnod prysur ond pleserus dros ben.

Rhannwyd y gwaith allan rhwng y pedwar ohonynt. Jordan Walker oedd yn gyfrifol am drefnu'r drafnidiaeth, fel y bws National Express, y teithiau awyr, y taccis, ac hyd yn oed 'limo'. Gwaith Liam Knowles oedd dewis gwesty addas. Roedd gwesty'r Park Central mewn lleoliad gwych, bum munud o Central Park a deng munud o Times Square. Roedd Rory Rebbeck yn gyfrifol am drefnu'r gweithgareddau ar gyfer bob diwrnod ac erbyn diwedd yr wythnos roedden ni wedi llwyddo i weld y prif atyniadau a mwy! Cyfrifoldeb Lowri Williams oedd sicrhau bod y gwaith papur i gyd yn ei le, o'r pasports i'r visas a hefyd gofynion Iechyd a Diogelwch y daith. Cafodd y disgyblion brofiadau arbennig, nid yn unig ar y daith ond hefyd wrth drefnu.

Cynhaliwyd cynhadledd ddeuddydd i ddisgyblion BI 10 eto eleni, i'w paratoi ar gyfer y 'Byd Gwaith'. Bwriad y gynhadledd oedd datblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, fel gweithio mewn tîm a datrys problemau. Ar y diwrnod cyntaf, cafwyd amrywiaeth o weithgareddau mentergarwch, a rhoddwyd her i'r disgyblion i weithio mewn tîm er mwyn dylunio deunyddiau marchnata ar gyfer grawnfwyd newydd. Cafwyd syniadau arbennig o dda!

Ar yr ail ddiwrnod, bu'r disgyblion yn ymweld â busnesau yn Abertawe i weld sut oeddent yn gweithio, pa fath o swyddi yr oeddent yn cynnig yn ogystal â gweld sut oeddent yn cwrdd â gofynion Iechyd a Diogelwch. Cafwyd cyflwyniadau hynod o ddiddorol a bydd y wybodaeth yn sicr o fudd iddynt yn y dyfodol. Hoffai'r ysgol ddiolch i westai Ramada Jarvis, y Marriott a'r Village, Amgueddfa Abertawe a Glanfa Abertawe, cwmni yswiriant Admiral, Theatr y Grand a Chanolfan Hamdden LC2. Diolch hefyd i Diana, Iona, Alex a Liz o Gyrfa Cymru am eu cyfraniad.

Yn ddiweddar bu tîm siarad cyhoeddus iau'r ysgol, sef Caleb Davis a Christopher Barker o flwyddyn 8 a Joshua Yardy o flwyddyn 7, yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth siarad gyhoeddus Saesneg y clwb rotari yng Ngwesty Bae Abergwaun yn Sir Benfro. Daeth y tîm yn ail yn y gystadleuaeth a derbyniodd y bechgyn glod uchel am eu hymdrechion. Derbyniodd Christopher Barker y wobwr am y Gwrthwynebydd gorau. Y pwnc trafod oedd, 'Cred y tŷ hwn y dylid parchu hawl pobl sy'n byw yn llygad y



cyhoedd i gadw'u bywyd preifat yn breifat'. Yn dilyn eu llwyddiant yn y gystadleuaeth, cymerodd y tîm ran mewn dadl fywiog yn ystod yr awr ginio a phleidleisiodd y gynulleidfa yn gryf o blaid parchu preifatrwydd ffigurau cyhoeddus. Llongyfarchiadau mawr i'r tîm.

Yn y Gegin gyda Gareth



Pump mewn Pryd!

Mae her yn fy wynebi yn y gegin ym mis Mai, gan fod rhai ohonoch, cogyddion 'Clonc' wedi bod yn holi am rysetiau hawdd ac yn defnyddio ond pum cynhwysyn.

Beth all fod yn haws, meddech chi, na rysait yn defnyddio ond pum cynhwysyn? Cawn ni weld - yn ddelfrydol dylasai fod yn rhwydd creu pryd heb ffws!

Rwy'n siŵr y bydd y casgliad canlynol o rysetiau yn ddefnyddiol trosodd a throsodd.

Felly, Un! Dau! Tri! Pedwar a Phump!

Hwyl,

Gareth.



Gareth gyda Shan Cothi a Iolo Williams - rhaglen 'Bro' a ddarlledir ar 28ain Mai 2010.

"Penfras Hufennog mewn chwinciad."

Cynhwysion.

2 ddarn o benfras (cod) heb groen tua 6 owns yr un.

½ cwyd o ferw'r dŵr (watercress)

4 llond llwy fwrdd cryno o creme fraiche

1 llond llwy de o ruddygl poeth(horseradish)

Darnau o lemnw



Dull

- Rhowch y penfras mewn dysgl meicrodon ac ychwanegwch bupur a halen. Torrwch y berwdwr yn ddarnau a chymysgwch gyda'r rhuddygl poeth a'r creme fraiche.
- Taenwch y gymysgedd dros y pysgod. Gorchuddiwch â clingfilm. Torrwch dyllau ynddo a rhowch yn y meicrodon ar y donfedd uchaf am 4 – 5 munud.
- Gadewch i aros am 2-3 munud a gweinwch gyda darnau o lemnw.

"Pryd Porc o Bump?"

Cynhwysion.


4 golwyth (chop) porc

5 owns o gaws glas

1 tun o binafal

4 llond llwy fwrdd o saws afal

Tatws wedi stwmpio



Dull

- Cynheswch y gril. Rhowch bupur a halen ar y golwyth a'u rhoi dan y gril am tua 12 munud, trowch nhw unwaith.
- Rhowch y saws afal dros y golwyth gyda chylch pinafal ar bob un. Darniwch y caws drostynt a rhowch o dan y gril nes bod y caws wedi toddi a throi yn euraid. Gweinwch gyda'r tato. Peidiwch anghofio'r caws fydd wedi arllwys i'r ddysgl o dan y gril.

"Treiff Rhiwbob – Pwdin o Bump."

Cyn bo hir bydd digonedd o riwbob yn yr ardd, felly beth am y pwdin yma. Medrwn ddefnyddio riwbob o dun.

Cynhwysion

540 gm o riwbob ffres neu o dun wedi'i goginio gydag ychydig siwgr.

Ychydig o bowdwr sinsir

500 gm o gwstard

6 o fisgedi sinsir wedi'u malu'n fras

1 pot o mascarpone

Dull

- Cymysgwch y rhiwbob a'r sinsir, a rhannwch i bedwar gwydryn.
- Cymysgwch y cwstard a'r mascarpone a rhannwch dros y rhiwbob
- Addurnwch gyda'r bisgedi wedi malu. Mwynhewch!



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Ar y ffordd

Cŵn y Baskervilles, Jack the Ripper, amdo Turin ... mae yna ddirgelwch mawr newydd yn y byd ... a hynny yn ardal Clonc.

Mae'r rhyfeddod yma i'w gael ar y ffordd fawr rhwng Llanybydder a Llanllwni ac mae wedi bod yno ers misoedd ar fisoedd.

Set o oleuadau traffig sydd yno ac maen nhw'n rhai da, yn newid bron bob tro y byddwch chi'n dod yn agos. Ond nid dyna'r dirgelwch.

A dweud y gwir, mae yna dri chwestiwn mawr i'w gofyn. Pam eu bod nhw yno? Pam maen nhw'n dal i fod yno? A pha mor hir fyddan nhw eto?

A chwpwl o gwestiynau eraill ... tybed a oes rhywun mewn rhyw swyddfa yn rhywle wedi anghofio amdany'n nhw? A oes yna ffeil 'Goleuadau Llanybydder' wedi cael ei chnoi gan gi? Ai'r gobaith ydi y bydd y goleuadau'n bridio i greu atyniad tebyg i Blackpool.?

Mae'r goleuadau'n nodi'r fan lle'r aeth lorri dros y clawdd – dw i'n gwybod hynny achos mi ddigwyddais landio yno o fewn ychydig iawn i'r ddamwain ddigwydd.

Mi fu'n rhaid cael craeniai i godi'r lorri yn ôl ar yr hewl ac, yn ddigon naturiol, roedd angen atal y traffig i wneud hynny. Ond beth sydd wedi digwydd wedyn?

Does dim gwaith wedi'i wneud yno, hyd y gwela' i. Ac, i wneud pethau'n rhyfeddach, dydi hi ddim yn edrych fod angen unrhyw waith chwaith.

Ar y gorau, clawdd isel iawn oedd yna a chlawdd isel iawn sydd y naill ochr a'r llall i'r bwlch. Oni bai fod rhywun yn gwybod, go brin y byddech chi'n sylwi ar unrhyw wahaniaeth.

Ond mae un lôn ar gau ac mae yna faricêds i gadw traffig draw ac mae'r goleuadau'n newid ddegau o weithiau bob dydd ... yn defnyddio trydan, yn achosi rhwystredigaeth ac yn gwneud i fi grafu fy mhen.

Dw i'n cofio pont tros dro a fu'n croesi afon Mawddach ger Dolgellau am ddegawdau ac roedd yna oleuadau traffig yn ardal Y Bala a gafodd barti pen-blwydd oherwydd eu bod mor hen.

Yr hyn sy'n fy mhoeni fi ydi y bydd Cadw'n dod heibio cyn hir i'w restru goleuadau Llanybydder fel y byddan nhw yno am byth.

Ar y llaw arall, mi fyddai ambell olau coch yn help ar ddwy o'r ffyrdd eraill sy'n mynd o Lanybydder. Goleuadau coch, sawl rowndabowt a chwpwl o geir heddlu.

Alla' i ddim honni bod yn sant ym maes gyrru araf a gofalus. Mae'n rhaid cyfadde' fy mod i, fel llawer un arall, weithiau'n gadael i'r car grwydro tros y 30 a'r 40 a hynny'n aml heb sylweddoli.

Ond dw i, fel llawer un arall, wedi teimlo ychydig yn flin o weld y fan wen a'r camerâu'n trio dal gyrrwyr sy'n mentro ychydig tros y terfyn cyflymder. Nid am na ddylen nhw fod yno ond am fod gyrru llawer gwaeth yn mynd heb sylw o gwbl.

Achos mater hollol wahanol ydi'r gyrru sy'n digwydd yn hwyr y nos ar y ffordd gylch o Lanbed i Lanybydder, draw i Lanwnnen ac yn ôl i Lanbed wedyn. Gyrru cyflym iawn, cwbl fwrriadol, a gyrru gwirioneddol beryglus.

Mi allwch chi glywed y ceir yn dod o bellter, yr injans yn refio a'r teiars yn gwichian. Ac wedyn y goleuadau'n gwibio tros ganghennau ucha'r coed, cyn iddyn nhw ddod i'r golwg.

Mi faswn i'n dweud bod rhai'n gwneud 70 neu 80 neu hyd yn oed fwy, a hynny mewn ardal 40. Petai car yn tynnu'n ara' o un o'r hewlydd fferm, mi fyddai yna lanast ofnadwy.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd y ffordd yna'n frith gan flodau – sawl tusw wedi'u rhoi i nodi'r fan lle'r oedd rhywun wedi ei ladd. Roedd sawl un yn cofio am achos o yrru rhy gyflym.

Does neb eisio gweld y blodau'n ôl a dyna pam bod y fan wen yno. Ond mae'n dal y bobol anghywir.

PRIFYSGOL CYMRU LLANBEDR PONT STEFFAN

Wythnos Addysg Oedolion: Dosbarthiadau rhad ac am ddim

18 Mai 2010 (bore): Archwilio'r Clasuron a Hanes Hynafol

18 Mai 2010 (bore): Hanes Lleol, yr Agorfa i'r Ardal, Achau ac Anheddau

19 Mai 2010 (trwy'r dydd): Ymweliad ag Ystrad Fflur

20 Mai 2010 (trwy'r dydd): Ffotograffiaeth Ddigidol, Sinema'r Byd a Chardiau Post Awgrymog

Darperir cinio a chludiant. Mae pob dosbarth yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Saesneg.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth ac archebu lle: 01570 424855.

www.llanbed.ac.uk

Poster Croeso

Fel y gwelwch, mae poster Croeso i Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2010 gyda'r papur y mis yma. Croesawu y miloedd o ymwelwyr fydd yn tyrru i Geredigion dros yr wythnosau nesaf ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion rhwng y 31 Mai a'r 5 Mehefin yw pwrpas y poster ac mae Pwyllgor Cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod a threfnwyr yr ŵyl yn gofyn yn garedig i bawb roi'r poster mewn lle blaenllaw er mwyn dangos y croeso cynnes ym mhob man.

Mae baneri byntin ar gael hefyd a nifer o gynghorau tref a chymuned eisoes wedi eu archebu er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd yn fôr o liw. Os hoffech archebu byntin neu am ragor o fanylion cysylltwch â Nia Wyn Davies - niawyn@maesglas50.freeserve.co.uk.

"Wedi blynyddoedd o waith caled a pharatoi, mae'r Eisteddfod ar ei ffordd i Lanerchaeron a phawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr achlysur," meddai Deian Creunant, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith. "Hoffwn ddiolch o galon i bawb am eu brwydfrydedd ac am eu gwaith caled wrth godi arian a threfnu gweithgareddau i sicrhau y bydd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion 2010 yn un o'r Eisteddfodau mwyaf llwyddiannus erioed."

Bydd Maes yr Eisteddfod yn Llanerchaeron yn ferw o weithgaredd dros yr ŵyl. Y pafiliwn cystadlu fydd canolbwynt y Maes, fel arfer ac oddi amgylch bydd unedau lliwgar sy'n gwerthu ac arddangos nwyddau, llwyfannau perfformio a theatr byw. Eleni fe fydd yr ŵyl, sy'n un o brif wyliau Ieuenticid Ewrop yn croesawu nifer o elfennau newydd i'r Maes gan gynnwys Trên Bach y Maes, fydd yn cludo Eisteddfodwyr o amgylch y Maes, GwyddonLe, gweithdai samba a chreffft y DJ a mwy o fandiau byw nag erioed o'r blaen.

Gyda'r nos, mae gwledd o berfformio o'n blaenau, gyda'r cyngerdd agoriadol yng nghwmni nifer o artistiaid lleol nos Sul, 29ain o Fai, Plant y Fflam yn Theatr Felinfach a Lledrith Llew, sioe plant cynradd yr ardal yn seiliedig ar fywyd a gwaith T Llew Jones.

"Dewch yn llu i Lanerchaeron!," medd Deian. "Bydd digon i gadw Eisteddfodwyr o bob oed yn hapus. O eistedd yn y pafiliwn i wrando ar y cystadlu o'r safon uchaf, cymryd rhan mewn gweithdy celf neu chwarae pob math o chwaraeon – byddant oll ar gael yn Llanerchaeron eleni, a mwy! Anodd fydd curo 'steddfod y Cardis!'"

LAWNSIO LLYFRYN YN CODI £300 I'R URDD

Yn dilyn lansio llyfryn emynau "Bryncerdin ac emynau eraill" gan Gerald Morgan, Tregaron, yn Ysgol Ffynnonbedr ar Fawrth 25, codwyd £300 i goffrau Llanerchaeron 2010, drwy help Dorian Jones a Phwyllgor Apêl Llanbedr-Pont-Steffan.

Cafwyd cryn ganmoliaeth am y canu ar y noson gan y chew pharti a berfformiodd chwech o'r deg emyn-dôn gyfoes yn y llyfryn: triawd Ysgol Uwchradd Tregaron dan arweiniad Rhiannon Lewis; pedwarawd Twynog Davies, Llanbed; wythawd "Ffrindiau" dan gyfarwyddyd Bronwen Morgan, Bwlchyllan; pedwarawd Catherine Hughes, Tregaron; pedwarawd Chris Lockley, Aberystwyth, a deuawd gan Delyth Hopkins Evans a'i chwaer Gwyneth Davies, Pontrhydygroes. Y cadeirydd oedd Gareth Jones, Llanbed.

Recordiodd Eifion Williams (Bodyshaker) y noson a chyflwynwyd y digwyddiad ar Radio Ceredigion fore Sul Y Pasg. Os byddwch am gopi o'r lansio ar CD neu glywed yr emynau'n unig, cysylltwch ag Eifion ar 01974 821672. Y gost yw £4.

Mae'r llyfryn ar werth yn lleol yn Siop Y Smotyng Du ac yn Yr Hedyn Mwstard, pris £2.

Ond mae 'na ragor.....pa gapel neu eglwys leol fydd y cyntaf i ymateb i her Gerald Morgan o ddefnyddio'r gyfrol i chwyddo'r coffrau hyd yn oed yn fwy? Syml iawn yw'r syniad. Crëwch noson "Dowch i Garu'r Iesu" drwy wahodd arweinydd/es i ddysgu'r emynau i chi mewn noson o ganu cynulleidfaoel. Daw Gerald Morgan i sôn am gefndir yr emynau i roi saib rhwng y canu. Dewiswch ddau berson cyfrifol i werthu'r llyfrynau ar y noson a bant â chi! Roedd saith arweinydd/es yno ar noson y lansio felly mae digon i gael sawl noswaith mewn sawl addoldy! Beth amdani Llanbed??

Cysylltwch â Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, SY25 6JG neu geraldmorgan3@hotmail.com

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Llwch-yr-hâl a Blaenpennal

Mae Llwh-yr-hâl ger Llandyfriog yn enw sy'n haeddu sylw. Mae dau air 'llwch', y naill yn dynodi powdr neu ddwst ac sy'n digwydd mewn olyniadau megis 'llwch sigarét', 'llwch glo', 'llwch y llawr'; mae'r llall yn dynodi ystod eang o ystyron gan gynnwys 'tarddle nant, cors, llaid, budreddi, dwr llonydd'. Mae'r ail air yn digwydd yn elfen gyffredin mewn enwau lleoedd. Dyna a geir yn Cil-llwch ger Llandygydd yng Ngheredigion; yn Ynys-pen-llwch ger Clydach yn Sir Forgannwg; ym Maesllwch ger y Clas-ar-Wy yn Sir Faesyfed. Ceir Amlwch yn Sir Fôn; y ffurf gyfatebol yn Sir Benfro (Plwyf Dewi) ac yn Sir Gaerfyrddin (Porthtywyn) yw Emlych gydag am-/em- yn dynodi 'o gwmpas' a 'llych' yn ffurf amrywiol ar 'llwch'. Mae Llan-llwch yn Sir Gaerfyrddin ac ystyr yr enw hwnnw yw 'eglwys ger llyn'. Mae cors helaeth yn ymestyn am ryw ddwy filltir i'r gorllewin o'r pentref.

Mae'r elfen 'hâl' a geir yn yr enw yn Llandyfriog yn perthyn i 'halogi' ac yn gallu dynodi budreddi, llaid neu gors. Gerllaw Llwh-yr-hâl, llifa nant fechan trwy bant gwlyb i gyfeiriad afon Llawgam. Ystyr Llwh-yr-hâl felly yw 'Llyn y llaid'. Mae ffurf gytras sef 'hal' yn digwydd mewn Cernyweg ac fe'i gwelir yn yr enw Penhale yng Nghernyw, enw sy'n digwydd yn gyffredin gerllaw nentydd sy'n tarddu mewn pantiau corsog.

Gall 'hâl' yn ogystal ddynodi 'rhos' neu 'waun' a dyna'r ystyr debycaf yn yr enw Blaenpennal. Mae'r enw hwnnw yn cael ei gofnodi am y tro cyntaf yn 1326. Yr elfen gyntaf yn yr enw yw 'blaen' sy'n dynodi ucheldir. Felly ystyr Blaenpennal yw 'ucheldir Pennal' ac mae'r pentref ar dir uchel heb fod ymhell iawn o darddle Afon Aeron. Yr elfennau yn 'pennal' yw 'pen' a 'hâl'. Mae 'pen' yn dynodi 'copa, ucheldir, tarddle, pentir'. Ystyr yr ail elfen yw 'rhos, gwaun', ac mae'n digwydd yn elfen mewn hen enwau lleoedd: yr Hâl Ddu ger Blaen Rhymni (Sir Fynwy); yr Hâl Felen ger Dorstone (Henffordd); Hâl Un Wernen ger Onllwyn (Sir Forgannwg).

Gallai esboniad tebyg egluro Pennal yn Sir Feirionnydd. Mae'r pentir yn yr achos hwn ar yr ucheldir i'r gogledd-ddwyrain o bentref Pennal ac yn edrych dros Afon Dyfi. Ond gan fod llanw uchel yn gallu cyrraedd Afon Pennal gan effeithio ar ansawdd y dyfroedd, mae'n bosibl mai 'hâl' arall, sef halen, yw'r elfen yn yr enw hwnnw.

Tybed ai rhyw feddyliau fel hyn a ddaw i Sali Mali wrth iddi grwydro caeau Pentre Bach, Blaenpennal!

Ar gais un o ddarllenwyr 'Clone' byddwn yn ystyried y ddau enw Pont-ar-sais ac Abernawmor y tro nesaf.



Ceris Morgan yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio, cwlio a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod

Gorsgoch

01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariâu symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Mwnci ffwnci



Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

01570 422955

01570 422232



Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Arlunydd ym mynwent Alltyblaca

Ar ddydd Sul y Blodau cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Undodaidd Alltyblaca i nodi bywyd gwraig a gladdwyd yno 99 mlynedd yn ôl.



Nol yn 1997 ar raglen Twrio ar S4C gwerthwyd llun o waith yr artist Sarah Ann Doidge. Gwnaeth un o gyfranwyr y rhaglen y cyn blismon James

Lloyd neu Siwper Jim fel y cyfeiriwyd ato ddarganfod ei bod hi wedi cael ei chladdu ym mynwent Alltyblaca ym mis Tachwedd 1911. Roedd cryn ddirgelwch pam ei bod hi wedi ei chladdu yno ac fe ddeffro hynny chwilyfrydded y cyn blismon oedd a'i wreiddiau yn ddwfn ym Mhlwyf Llanwenog. Aeth ati i chwilio ymhellach i gefndir yr artist a dod o hyd i ffeithiau diddorol am ei bywyd ac fe ddatgelwyd y wybodaeth honno yn ystod y gwasanaeth ar Sul y Blodau eleni. Yn ôl yr ymchwiliad a wnaed ganddo dywedwyd bod Sarah Ann Doidge wedi ei geni yn Devonport yn Nyfnaint yn 1836, ac yno derbyniodd ei haddysg cynnar. Dangosodd ei gallu fel arlunydd dawnus gan ddatblygu dull arbennig o arlunio. Pan yn ifanc symudodd gyda'u theulu i ardal Surrey. Bu'n fyfyrwraig yng ngholeg y 'Government School of Practical Art' yn Llundain, ac a elwir yn ddiweddarach yn 'The Royal Female School of Art' yn Sgwâr y Frenhines, Llundain.

Hyfforddwyd hi i fod yn feistres yn nhechnoleg arlunio mewn olew a dyfrlliw, ac un o'i chyd fyfyrwyr yn y coleg oedd Miss Elizabeth Stirling a enillodd y wobwr gyntaf am gerflunio yn yr Arddangosfa Fawr yng Nghystal Palace yn 1851.

Pan oedd yn ifanc iawn fe'i cyflogwyd yn athrawes a derbyniodd swydd i ddysgu arlunio yn ysgol Y Farwnes Rothchild yn Mentmore. Roedd yn athrawes bersonol i'w merch, Miss Hannah Rothchild. Pan yn y swydd hon, fe wnaeth gyfarfod a'r Brenin Edward, yr hen Dywysog Cymru nifer o weithiau. Roedd yn ffrind agos i'r awdur Charles Dickens. Roedd yntau hefyd fel hithau yn Undodwr brwd.

Cafodd ei gwaith ei arddangos am rai blynyddoedd yn yr Academi Frenhinol. Meddai Jim "mi roedd cael gwneud hynny yn dipyn o gamp i wraig ifanc yn y cyfnod hynny." Bu'n teithio i wledydd Ewrop ar y Grand Tour a sefydlu canolfannau yn Rhufain a Florence ac arlunio llawer yn yr Eidal, Swistir, Ffrainc a'r Almaen. "Dyna oedd yr arfer yn yr oes honno" meddai.

Ar ôl dychwelyd i Brydain, penderfynodd sefydlu cartref yn Aberdyfi a hynny mewn tŷ a'r y creigiau gyda golygfa hyfryd ar draws aber yr afon hyd at Ynys Las yng ngogledd Ceredigion. Hwn oedd ei 'thŷ haf' gan iddi aros yno dros misoedd yr haf, a threulio'r gaeafau yn nhre Aberystwyth.

Daeth James Lloyd a chwech o'i phaentiadau gydag ef i ddangos yn y capel ac yn eu plith roedd golygfa ar lan Afon Dyfi yn



edrych i fyny tuag at mynyddoedd Meirionydd ac i gyfeiriad Machynlleth paentiad arall o Graig yr Adar i'r gogledd o Tywyn ynghyd ag un o dyddyn Mari Jones Abergynolwyn.

Bu farw yn Aberystwyth ar yr 28ain o Dachwedd 1911 yn 75 mlwydd oed, a hynny yng nghartref cyfaill o'r enw Elizabeth Ann Thomas, a ddaeth yn wreiddiol o ardal Aberaeron. Yn ôl ei dewis, claddwyd hi ym mynwent Alltyblaca.

"Tan y ddiweddar bu'n ddirgelwch pahan ei bod wedi ei chladdu ym mynwent Alltyblaca ond diolch i Jim mae hynny wedi ei ddatrys" meddai gweinidog presennol y capel sef Ceu Llwyd. "Y rheswm yw, ei bod am gael ei chladdu gerllaw ei ffrind mynwesol Laura Hirtzel Powell." Roedd ei chwaer sef Ophelia Catherine Powell yn briod a David Lewis Evans a anwyd yn Rhuddlan, ger Llanybydder yn 1813. Mae yntau yn cael ei ystyried yn un o arweinwyr yr enwad Undodaidd. Mae'r ddau ohonynt wedi eu claddu ym mynwent y capel. Wedi i David Lewis Evans weinidogaethu ar amryw o gapeli Undodaidd megis Onnenfawr ger Llandeilo ac yn swydd Rhydychen dychwelodd i Ben-y-Bont ar Ogwr. Tra roedd yno fe gynorthwyodd yn y fenter i sefydlu cylchgrawn yr enwad sef Yr Ymofynnydd cyn derbyn swydd fel athro Hebraeg a Mathemateg yng ngholeg y Presbi yng Nghaerfyrddin sef y coleg oedd yn paratoi pobl at y weinidogaeth. Ganwyd i David Lewis Evans a'i wraig Ophelia Catherine Powell bedwar o blant oedd yn cynnwys y pregethwr Undodaidd a'r hynafieithydd George Eyre Evans sydd hefyd a'i lwch wedi ei wasgaru ym mynwent Alltyblaca. Bu Ophelia Catherine Powell farw pan oedd y pedwar plentyn yn ifanc ac fe'i magwyd gan eu modryb sef chwaer eu mhâm Laura Hirtzel Powell a phan bu hithau farw fe'i claddwyd fel ei chwaer a'i brawd yng nghyfraith ym mynwent y capel. Datblygodd cyfeillgarwch mynwesol rhyngddi yr artist a hithau a'i dymuniad oedd cael ei chladdu wrth ei hochr.

Gwnaed tipyn o waith tacluso ar y bedd cyn y gwasanaeth ar Sul y Blodau ac fe ddywed Ceu Llwyd "Diolch i'r rhai a fu yn gwneud y gwaith hwnnw a diolch yn arbennig i Jim am ei waith trylwyr o chwilio'r hanes. Mae'r darnau bellach yn disgyn i'w lle sydd yn rhoi sylfeini cadarn i ni fedru cario ymlaen i gynnal digwyddiadau pellach y flwyddyn nesaf i nodi canmlwyddiant marw yr artist Sarah Ann Doidge".

Dyfodol Radio Ceredigion

Fe elwir ar i Ffrindiau Radio Ceredigion lleisio eu barn a'u pryderon am y ddarpariaeth newydd mewn deiseb. Yn dilyn newidiadau mawr yn nhrefn rheoli Radio Ceredigion, y mae yna gryn gonserm am y ddarpariaeth o raglenni Cymraeg a Chymreig ei naws. Felly fe lansiwyd deiseb sydd i'w chyflwyno i OFCOM. Mae'r ddeiseb yn galw ar i OFCOM sicrhau :-

- y glynir yn gaeth at y fformat presennol lle ceir hanner y rhaglenni yn Gymraeg a'r hanner arall yn Saesneg;
- y darlledir rhaglenni ar wahân yn y ddwy iaith yn ystod yr oriau brig o ddydd Llun i ddydd Gwener a thros benwythnosau;
- nad yw'r rhaglenni Cymraeg yn cael eu gwtio i'r cyron a'u darlledu yn ystod oriau anghymdeithasol y tu allan i'r cyfnodau hynny y mae'r diwydiant darlledu yn eu cydnabod fel 'oriau brig';
- nad yw'r rhaglenni yn rhai dwyieithog lle byddai rhan fwyaf o'r cynnwys o ran y gerddoriaeth a'r sgwrsio yn Saesneg a dim ond ychydig o frawddegau yn Gymraeg fan hyn a fan draw fel arwydd o ewyllys da;
- y ceir rhaglenni sgwrsio a rhaglenni cerddoriaeth ar wahân sy'n adlewyrchu'r ardal y mae Radio Ceredigion yn ei gwasanaethu.

Os am fwy o wybodaeth cysyllter ag :- Eileen Curry, Winllan, Prengwyn, Llandysul, Ceredigion SA44 4LP.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow,
Llambod.
01570 423955

WILLIAMS

— CONTRACT SERVICES CYF —
Peiriannau Hirio, Peirianwyr
Cyffredinol, Gwaith Sylfaen,
Menage, Tirlunio, Garddio,
Ffensio, Adeiladu a Gwaith
Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb,
Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk
Y we: www.williamscontractservices.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO


AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bywyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod
01570 422893 / 422175



Dôl- Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder,

Annwyl Ffrindiau,

Sut ydych chi heddiw? Wel, rydw i wedi bod yn ofnadwy o brysur yn ddiweddar yn plannu tato yn yr ardd. Ges dipyn o ffwdan yn gwthio'r whilber a minnau ond yn hen grwbach bach! Ond bydd yr holl waith caled yn talu ffordd pan fydd hi'n amser bwyta'r tato newydd. Mmm! Rwyf wrth fy modd gyda nhw. Efallai bod rhai ohonoch chi wedi bod yn plannu hefyd?

Wel, roedd y lliwio yn arbennig y mis hwn, gyda chlod arbennig yn mynd i Dion Wyn Evans o Dalgarreg, Cara Medi Rowcliffe o Lamed, Manon Lois Williams o Bencarreg a Charlie Butcher o Gaerdydd. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Hanna Davies, Ger-y-nant, Drefach, Llanybydder.

Llongyfarchiadau mawr ichi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, 17 Mai.



Enillydd
y mis!

Hanna
Davies



Enw:

Cyfeiriad:

Sarn Helen



Ar ddydd Sul y Pasg cynhaliwyd ras Teifi 10 o glwb rygbi Llamed. Lomax Llamed a Dwr Llanllŷr Talsarn oedd yn noddi'r ras. Can pedwar deg ac un o redwyr yn dechrau'r ras a Richard Roberts o glwb Eryri enillodd mewn 54 munud 7 eiliad, 2il Michael Kallenberg Carmarthen Harriers 55 munud 23 eiliad, 3ydd Robert Dyde Pembrokeshire Harriers 57 munud 1 eiliad. Dynion 40 1af Peter Coles Ponypridd Roadents 56 munud 13 eiliad, 2il Glyn Price Sarn Helen 57 munud 32 eiliad, 3ydd Michael Davies Sarn Helen 58 munud 23 eiliad. Dynion 50 1af Arwel Lewis Eryri Harriers 62 munud 2 eiliad, 2il Tony Hall Sarn Helen 66 munud 5 eiliad, 3ydd Mark Terry Trots 67 munud 28 eiliad. Caryl Jones Trots enilloedd ras y menywod 61 munud 58 eiliad, 2il Phoebe Webster Aberystwyth AC 62 munud 14 eiliad, 3ydd Victoria Jackson Cardiff AAC 66 munud 53 eiliad, Menywod 35 1af Ann Thomas Trots 62 munud 24 eiliad, 2il Ann Lynch Pembrokeshire Harriers 68 munud 30 eiliad, 3ydd Alyson Hayes Cardigan 74 munud 21 eiliad. Menywod 45 1af Sandra Pinkham Port Talbot Harriers 69 munud 1 eiliad, 2il Dawn Kenwright Sarn Helen 71 munud 10 eiliad 3ydd Anita Worthing Aberystwyth AC 72 munud 49 eiliad. Dynion Sarn Helen enillodd y tîm, Glyn Price, Michael Davies, Carwyn Thomas a Andrew Abbott a Menywod Trots oedd yn gyntaf Caryl Jones, Ann Thomas, Lindy Eynon a Helen Williams.

Canlyniadau rhedwyr Sarn Helen yn y ras, 9 Carwyn Thomas 60 munud 57 eiliad, 11 Andrew Abbott 61 munud 40 eiliad, 21 Mark Dunscombe 63 munud 5 eiliad, 29 Simon Hall 65 munud 18 eiliad, 35 Tony Hall 66 munud 5 eiliad, 41 Huw Price 67 munud 7 eiliad, 49 James Thomas 68 munud 9 eiliad, 53 David Thomas 69 munud 11 eiliad, 54 Murray Kisbee 69 munud 28 eiliad 57 Jessica Leitch 69 munud 33 eiliad, 75 Dee Jolly 72 munud 50 eiliad, 95 Gareth Jones 77 munud 19 eiliad, 105 Caryl Davies 80 munud 10 eiliad, 125 Angharad Hull 86 munud 17 eiliad 132 Jan Jones 90 munud 49 eiliad 136 Gudrun Jones 102 munud 11 eiliad a Allen Watts 140 munud 24 eiliad.

Michael Davies enillodd y ras 30K yn Abergwaun mwen 36 munud 7 eiliad, 6ed Simon Hall 39 munud 33 eiliad, 9fed Tony Hall 40 munud 30 eiliad, 11fed Dee Jolly 42 munud 28 eiliad, 18fed Dawn Kenwright 44 munud 32 eiliad, 25ed Gareth Jones 47 munud 59 eiliad, 32fed Jan Jones 56 munud 22 eiliad.

Ym mis Ebrill mae dwy marathon yn cael ei chynnal, y cyntaf oedd 'The first ever Llanelli Star Great Welsh Marathon' yn Llanelli ar ail oedd 'Virgin London Marathon'.



Daeth canlyniadau da iawn allan o'r ddwy farathon. Yn Llanelli Glyn Price yn gorffen yn y drydydd safle ac ail vet 40 ac yn cael ei amser gorau, a hefyd Caryl Davies yn rhedeg ei amser gorau.

3ydd Glyn Price 2 awr 52 munud 36 eiliad (PB), 30fed Murray Kisbee 3 awr 16 munud 46 eiliad ac yn ennill y category dynion 60, 37fed ac yn 16ed dynion 40 David Thomas 3 awr 19 munud 15 eiliad, a 136ed Caryl Davies 3 awr 57 munud 57 eiliad (PB), ac yn gorffen yn y chweched safle menywod agored. Enillwyd y tîm gan y pedwar.

Aeth pump rhedwyr i Lundain i'r marathon, Michael Davies yn rhedeg ei farathon cyntaf ac yn gorffen yn rhagorol mewn 2 awr 53 munud 53 eiliad, Carwyn Thomas 3 awr 7 munud 17 eiliad, a dim ond tair eiliad ar ôl Thomas oedd Mark Dunscombe 3 awr 7 munud 20 eiliad, Jessica Leitch 3 awr 12 munud 44 eiliad, Caroline John 3 awr 21 munud 22 eiliad, ar ail farathon mewn wythnos i David Thomas 3 awr 25 munud 13 eiliad.

Ras nesaf y clwb yw ras fynydd Sarn Helen 16.5 o filltiroedd o glwb rygbi Llamed, plant 10.30yb, oedolion 11 o'r gloch, a Ras y Llychau yn Talley Mai 21 am 7 o'r gloch. Am ragor o fanylion ffoniwch Lyn Rees 01570 434244.

Rhaglen 'Bro' o'r ardal



Shan Cothi gyda'r dyn y Tarw potel Aneurin Davies.



Iolo Williams gyda bois rygbi Llambled Jonathan Evans a Gary Davies.

Mae'n debyg mai dyddiad darlledu'r rhifyn Llambled o gyfres Bro ar gyfer S4C fydd nos Wener, Mai 28ain am 8.25pm. Bydd Iolo a Shan yn cwrdd a phob math o gymeriadau gan gynnwys Stuart Lloyd, Dylan a Dafydd Lewis, Gareth Richards ac yna'n cael taith ar geffyl a choets drwy'r dref!



Tynnu'r blew - Iolo Williams gyda Kirsty Mackie Jones a Catrin Davies.



Shan Cothi gyda Muriel, Kate a Manon o gwmni Wigs & Co.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

BORE COFFI AM DDIM

YN EISIAU

I ddysgwyr a Chymry Cymraeg

Siaradwyr Cymraeg

18 Mai 2010, 11.00 – 12.00

Byddai'r dysgwyr yn gwerthfawrogi
cael cymorth siaradwyr Cymraeg i'w
cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg
yn y gymuned.

Gwesty'r Llew Du, Llambled

Gŵyl Addysg Ceredigion

**Bob bore dydd Mawrth
Gwesty'r Llew Du, 11.00 - 12.00.**

Noddwyd gan NIACE/ESF

Jaci Taylor, Swyddog Datblygu, Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth
Cymru. jmt@aber.ac.uk 0800 876 6975



CYMRAG I OEDOLION
WELSH FOR ADULTS

Ugymdeith Cymraeg Cymru
Welsh Assembly Government
Initiative



PRIFYSGOL
ABERYSTRWYTH
UNIVERSITY



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG-WELSH
LANGUAGE BOARD

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
 - * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

LAS

Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhewch alwad i ni
ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

Byd y Campau...



Tîm pêl-droed o dan 13 oed Llambled gyda'u medalau ar ôl dod yn ail mewn twrnamaint yn Felinfach yn ddiweddar.



Bechgyn tîm pêl-droed Llambled o dan 9 oed gyda'u medalau yn dilyn llwyddiant yn nhwramaint Felinfach yn ddiweddar.



Bu tîm pêl-droed bechgyn ar merched Ysgol Carreg Hirfaen yn arbennig o lwyddiannus yng nghystadleuaeth y Sir yn ddiweddar. Cyrhaeddodd y merched y gêm gynderfynol a'r pedwar uchaf. Yn y gemau grŵp, enillwyd tair gem, un gêm gyfartal a cholli yn yr eiliadau diwethaf o amser ychwanegol yn y gêm gyn derfynol. Enillwyd y gêm nesaf gan sicrhau 3ydd safle. Perfformiad arbennig wrth dîm ifanc iawn (gan gynnwys merched blwyddyn 4)



Lisa Gwawr Thomas, Cribyn a gafodd ei dewis i chwarae i dîm Rygbi Datblygu Merched Cymru o dan 18.

TAITH GERDDED CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

Ar fore Sadwrn diwethaf o fis Mawrth gwnaeth tri deg a thri o aelodau Cymdeithas Edward Llwyd gyfarfod ar bwys Capel Troedryhiw, Cribyn gan gerdded gyda'n gilydd dan arweinyddiaeth Quentin a Mary Neal.

Roeddem yn ffodus i gael Euros Lewis i roi hanes y Capel cyn cychwyn y daith. I mewn yn y Capel soniodd am ystyr a goblygiadau'r geiriau 'cymdeithas' ac 'eglwys' ac am y Capel ei hun a'i waith ef.

Cawsom ganiatâd i gerdded i gastell neu fryngaer Moiddyn a chafwyd golygfeydd ysblennydd dros Geredigion a rhannau o Sir Gaerfyrddin. Yno, gan Quentin, cawsom hanes y bryngaerau a sut oedd bywyd yno yn y dyddiau 400C.C. Siaradodd Dai Llewelyn ac Ieuan Roberts am Gantref Moiddyn yn sylfaenol ar y fryngaer ac yn cwmpasu ardal eang yn cynnwys cyn belled a Chwm Tydu, Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan a Llandysul.

Cerddom heibio Moiddyn Fach i lawr i bont afon Grannell ac yno troi hyd y llwybr i mewn i Allt Penlan-Noeth i fwyta ein cinio ar lan yr afon.

Cawsom atgofion melyn o addysg yn hen Ysgol Gorsgoch wrth gerdded heibio gan y gyn Brifathrawes, Beryl Llewelyn, cyn mynd ymlaen drwy bentref Gorsgoch a sôn am ei gysylltiadau a'r diwydiant hetiau a'r ddefod o gloddio mawn o'r gors ar gyfer tanwydd yn y dyddiau a fu.

Pasiwyd rhai ffermydd eraill - Clyn Du, Glwyd Wern a Llechwedderi gan gerdded hyd gaeau sych a rhai mannau gwlyb, ymlaen heibio Fronfelen ac yn ôl ar yr heol i Gapel Troed-y-Rhiw ble cyrraeddodd y tri deg a thri braidd yn flinedig ond mor ddiolchgar i fod wedi mwynhau y cefn gwlad o'n cwmpas ar ddiwrnod braf o Wanwyn cynnar.

